# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 26AIN MEDI, 2024**

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00YB

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 18 Medi 2024)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Rheinallt Puw
Linda Ann Jones
Gwynfor Owen
Einir Wyn Williams
Sedd Wag
R Medwyn Hughes
Dewi Jones
Linda Morgan
Meryl Roberts
Jina Gwyrfai
John Pughe

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Eryl Jones-Williams
Angela Russell
Anwen J. Davies
Beth Lawton

## Llafur/Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd
Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cynghorydd Elin Walker Jones
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 13eg o Fehefin, 2024, fel rhai cywir.

**5. GWASANAETH GOFAL CARTREF** 14 - 24

I ystyried yr adroddiad.

**6. TRAFNIDIAETH I RAI SYDD GYDA DEMENETIA I FYNYCHU GOFAL DYDD** 25 - 33

I ystyried yr adroddiad.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y WEITHDREFN CWYNION, YMHOLIADAU A DIOLCHADAU'R ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD AC ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT AR GYFER 2023-24** 34 - 69

Paratoi Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a’i gyflwyno i’r Pwyllgor Craffu Gofal er mwyn craffu a monitro’r trefniadau ar gyfer delio’n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a’u cynrychiolwyr.

**8. POLISI CODI TÂL AM OFAL** 70 - 79

I dderbyn sylwadau’r pwyllgor ar y newidiadau arfaethedig cyn mynd allan i ymgynghori a chyflwyno i'r Cabinet.

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**
**13/06/24**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:-** Beth Lawton (Cadeirydd), Menna Baines, Jina Gwyrfai, R. Medwyn Hughes, Dewi Jones, Elwyn Jones, Eryl Jones-Williams, Linda Ann Jones, Linda Morgan, Gwynfor Owen, Gareth Coj Parry, Rheinallt Puw, Meryl Roberts, Angela Russell ac Einir Wyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:-** Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:-** Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Mannon Emyr Trappe (Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:**- Cynghorydd Menna Trenholme (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol) a Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 9:-** Cynghorydd Elin Walker Jones (Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd) ac Aled Gibbard (Pennaeth Cynorthwyol Adnoddau - Plant a Chefnogi Teuluoedd).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Beth Lawton yn Gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal ar gyfer 2024/2025**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dewi Jones yn Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal ar gyfer 2024/2025.**

Mynegwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Dewi Jones ar gael ei ethol fel Maer Caernarfon.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Anwen J Davies.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Ebrill, 2024 fel rhai cywir.

## 7. DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (DOLS)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ogystal â'r Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol.

Eglurwyd mai trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) yw'r weithdrefn a ragnodir yn y gyfraith pan fo angen amddifadu preswylydd neu glaf o'u rhyddid pan nad oes ganddynt y gallu i gytuno am eu gofal neu eu triniaeth, er mwyn eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Esboniwyd gall cyflyrau megis dementia neu anaf i'r ymennydd arwain at y diffyg hwn mewn capasiti. Pwysleisiwyd bod pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol.

Tywyswyd y Pwyllgor drwy'r adroddiad gan nodi bod DoLS yn ddyletswydd statudol a'i bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol arwain ar faterion DoLS o fewn eu cymunedau a chartrefi gofal, gyda'r Bwrdd Iechyd yn arwain ar y maes o fewn ysbytai. Ymhelaethwyd bod disgwyliad i bob cais am Awdurdod Safonol DoLS gael ei gwblhau o fewn 21 diwrnod, gyda cheisiadau brys yn cael eu cwblhau o fewn 7 diwrnod. Cydnabuwyd bod rhestr aros o 340 yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd y golyga hyn bod 340 o unigolion yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb awdurdod. Ymhelaethwyd bod 20 o'r unigolion hynny wedi bod yn aros am Awdurdod Safonol ers dros dair blynedd oherwydd newidiadau i'r rhestr aros yn sgil blaenoriaeth.

Amlygwyd nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio a'r deddfwriaethau perthnasol a bod risgiau corfforaethol amlwg yma. Sicrhawyd bod y mater hwn wedi cael ei uchafu o fewn cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Esboniwyd bod yr adroddiad yn ddull o rannu gwybodaeth am y sefyllfa i'r aelodau gan geisio derbyn adborth a chefnogaeth y Pwyllgor. Pwysleisiwyd nad yw'r sefyllfa hon yn unigryw i Wynedd gan gadarnhau bod Awdurdodau Lleol ar draws Gogledd Cymru ac yn genedlaethol gyda rhestr aros ar gyfer darpariaeth DoLS.

Datganwyd bod y Cyngor yn derbyn cyfartaledd o 67 cais am Asesiad Awdurdod Safonol yn fisol. Nodwyd bod 16 o'r ceisiadau hynny yn gallu cael eu hawdurdodi yn amserol. Ymhelaethwyd bod Asesiad Safonol yn ddilys am gyfnod o flwyddyn gan egluro bod angen i'r unigolion sydd wedi derbyn asesiad DoLS dderbyn asesiad ychwanegol ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Sicrhawyd bod gan yr Adran broses er mwyn blaenoriaethu'r unigolion sydd ar y rhestr aros yn unol ag anghenion brys ac yr angen am adnewyddu'r Awdurdod Safonol.

Adroddwyd bod 18 o weithwyr o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi cymhwyso fel Aseswyr Budd Gorau. Nodwyd bod yr Adran wedi ymdrechu yn y gorffennol i annog yr unigolion hyn i gynnal asesiadau ar gyfer DoLS ond nid oedd hyn yn gynaliadwy gan fod pob asesiad yn cymryd lleiafswm o 10 awr i'w gwblhau.

Cyfeiriwyd at yr adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael a'r her hwn gan nodi bod gan yr Adran un Cydlynydd DoLS sy'n gyflogedig am 4 diwrnod yr wythnos ac un Asesydd Budd Gorau sy'n gyflogedig am ddeuddydd yr wythnos. Ymhelaethwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i dderbyn arian grant gan Lywodraeth Cymru o £114,000 dros y dair mlynedd ddiwethaf er mwyn cyfarch gofynion y rhestr aros yng Ngwynedd. Eglurwyd bod y Cyngor wedi profi heriau recriwtio wrth ymdrechu i benodi unigolion i gynnal yr asesiadau, gan ei fod yn swydd tymor byr yn sgil y ffaith bod yr arian yn cael ei ddarparu yn flynyddol. Ymhelaethwyd bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i gomisiynu asiantaeth a thalu meddygon i gwblhau'r asesiadau ar ran y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Holwyd am y gwahaniaeth rhwng dyfarniad diffyg capasiti ac asesiad awdurdod safonol DoLS. Eglurwyd bod rhaid i unigolyn gael dyfarniad o ddiffyg capasiti cyn gwneud cais am asesiad DoLS. Mewn ymateb i gwestiwn am bwy sydd yn cael gwneud cais am asesiad DoLS cadarnhawyd bod hyn fel arfer yn cael ei wneud drwy'r gweithwyr proffesiynol.

Mewn ymateb i gwestiwn os yw'r gofyniad hanfodol i allu cyfathrebu'n Gymraeg yn arwain at lai o bobl yn ymgeisio am swyddi, cadarnhaodd yr Uwch-ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod Polisi Iaith y Cyngor yn ei wneud yn ofynnol i swyddi gael eu hysbysebu bob amser yn nodi sgiliau ieithyddol Cymraeg fel rhai hanfodol. Ymhelaethwyd pan fo swyddi sydd yn cael eu hysbysebu am y trydydd gwaith a bod diffyg ymgeiswyr gyda'r sgiliau iaith cymwys yna gellir ystyried penodi unigolun sydd ddim yn cyrraedd y sgiliau iaith angenrheidiol os ydynt yn ymrwymo i i ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg . Gall y Cyngor ddarparu hyfforddiant addas ar eu cyfer. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet bod yr Adran Oedolion wedi bod yn cynnig gwersi Cymraeg a gwersi gyrru i'r rhai sy'n cyrraedd y gofynion eraill ac yn ceisio bod yn hyblyg i ddenu gweithwyr.

Holwyd os yw'r Adran wedi ystyried y posibilrwydd o hysbysebu swydd barhaol ar y cyd gyda Sir gyfagos, credwyd y byddai swydd barhaol yn denu mwy o geisiadau. Mewn ymateb, nodwyd y byddai hyn yn heriol i'w weinyddu oherwydd bod niferoedd a gofynion darpariaeth DoLS yn newidiol rhwng Awdurdodau Lleol y rhanbarth. Nodwyd hefyd bod siroedd eraill gogledd Cymru wedi cael mwy o lwyddiant recriwtio swyddogion i gwblhau'r asesiadau na Chyngor Gwynedd. Amlygwyd heriau eraill hefyd megis sut fyddai'r gwaith yn cael ei flaenoriaethu pe bai'n cael ei weinyddu gan un swyddog yn gweithio ar draws dwy Sir.

Mewn ymateb i gwestiwn am y gosb ariannol, cyfeiriwyd at yr archwiliad mewnol i'r trefniadau a gyflawnwyd yn 2022. Cadarnhawyd bod archwiliad dilynol wedi cael ei gwblhau ym mis Mawrth eleni ble nodwyd bod risg uchel i'r Cyngor gael ei gosbi am ddiffyg cydymffurfiaeth gyda threfniadau statudol DoLS. Manylwyd mai cosb ariannol o oddeutu £3,000-£4,000 yr unigolyn, yn fisol am gyfnod ble mae unigolion wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb awdurdod yw'r gost uchaf gall ei roi. Cydnabuwyd gan yr Adran nad oes modd lliniaru'r risg gyda'r adnoddau sydd ar gael i'r Adran ar hyn o bryd ac felly eu bod yn credu y dylid parhau i geisio canfod prosesau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Nodwyd mai ail opsiwn yw clustnodi adnoddau ychwanegol i ddatrys y sefyllfa. Mynegwyd dymuniad i gyflogi swyddog llawn amser er mwyn ymgymryd â'r asesiadau hyn gan gydnabod bod cyfanswm y gost o'u cyflogi yn oddeutu £90,000 y flwyddyn. Mynegwyd rhwystredigaeth na fyddai cyflogi un swyddog llawn amser yn llwyddo i gyflawni'r un llwyth gwaith â'r asiantaethau a ddefnyddir yn bresennol am yr un swm o arian. Adroddwyd nad yw bidiau ariannol o fewn y maes hwn wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol. Cydnabuwyd nad oes opsiynau amgen i'w hystyried ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i ymholiad, adroddwyd bod y Cyngor wedi derbyn dirwy yn y gorffennol ac yn debygol o dderbyn dirwy arall yn fuan ar gyfer unigolyn oedd wedi ei amddifadu o'i ryddid heb awdurdod am gyfnod o chwe mis.

Atgoffwyd aelodau'r Pwyllgor o hyfforddiant a dderbyniwyd gan arbenigwr cyfreithiol ar fater tebyg yn y gorffennol. Yn sgil newidiadau yn aelodaeth y Pwyllgor hwn, cynigwyd i estyn gwahoddiad i dderbyn cyflwyniad gan arbenigwr unwaith eto er mwyn sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor yn gwneud penderfyniadau gwybodus wrth ystyried y ffordd ymlaen i'r ddarpariaeth yng Ngwynedd.

Nododd yr Aelod Cabinet nad oedd yn disgwyl datrysiad heddiw ond yn hytrach i uchafu'r risg i'r Cyngor. Amlygodd bod cynlluniau ar y gweill ond ei fod yn awyddus i'r Cyngor cyfan ddeall y risg. Cymerwyd y cyfle i ganmol staff yr Adran am eu gwaith ac am roi blaenoriaeth i'r maes diogelu.

Mynegwyd amharodrwydd gan yr aelodau i dderbyn y risg ac i dderbyn yr adroddiad yn ei ffurf bresennol a nodwyd awydd i dderbyn rhagor o wybodaeth. Datganwyd nad yw'r Pwyllgor Craffu Gofal yn ymrwymo i benderfynu ar dderbyn y risg gyllidol hon heb dderbyn gwybodaeth arbenigol bellach. Yn hytrach roedd consensws i fynegi gwir bryder am y sefyllfa a gofynnwyd i'r Aelod Cabinet gydweithio gyda'r Adran er mwyn datblygu cynllun gweithredu effeithiol yn ogystal â rhoi rhagor o fanyler ar opsiynau cyllidol recriwtio.

Gofynnwyd i'r Adran ddarparu adroddiad cynnydd ymhen 6 mis er mwyn cyflwyno diweddariad. Diolchwyd i'r swyddogion am adroddiad cynhwysfawr a chlir.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau canlynol:**

a) **Datgan gwir bryder am y sefyllfa ac amharodrwydd y Pwyllgor Craffu Gofal i dderbyn y risg sy'n cael ei amlygu yn yr adroddiad.**
b) **Gofyn i'r Aelod Cabinet Oedolion drafod ymhellach efo'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a chreu cynllun gweithredu.**
c) **Gofyn i'r Adran ddarparu adroddiad Cynnydd ymhen 6 mis.**
d) **Nodi dymuniad i dderbyn gwybodaeth bellach gan arbenigwr.**

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STATEGOL DIOGELU 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

Darparwyd diweddariad ar waith y Panel Strategol Diogelu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Esboniwyd bod gwaith y Panel yn allweddol i weithrediad holl Adrannau'r Cyngor, gan ei fod yn ystyried prosesau diogelu yn gorfforaethol. Nodwyd bod y Cabinet wedi derbyn yr adroddiad yn eu cyfarfod ar 11 Mehefin 2024.

Tynnwyd sylw at y prif newidiadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys addasiadau i Gylch Gorchwyl y Panel, Cylch Gorchwyl y Grŵp Gweithredol Diogelu a chyhoeddi Polisi Diogelu newydd. Ymfalchïwyd bod y Polisi Diogelu bellach yn fwy eglur yn enwedig ynghylch y diffiniadau o amddiffyn a diogelu. Ymhelaethwyd bydd hyfforddiant ar y Polisi hwn yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol agos.

Cadarnhawyd bod yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi derbyn 7,230 o gyfeiriadau i wasanaethau plant yn ystod y flwyddyn. Cymharwyd yr ystadegyn hwn gyda'r ffigwr cyfartalog cyn y pandemig, ble'r oedd cyfeiriadau i wasanaethau plant oddeutu 5,000 y flwyddyn. Nodwyd bod hyn yn gynnydd sylweddol o gyfeiriadau ond cadarnhawyd bod y ffigyrau blynyddol yn lefelu erbyn hyn, gan obeithio bydd niferoedd cyfeiriadau yn lleihau yn y blynyddoedd i ddod.

Adroddwyd bod cynnydd o 248% i'w weld yn y gwaith sy'n ymwneud â phryderon diogelu am ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth, o'i gymharu â 2022/23. Cadarnhawyd bod gweithdrefnau mewn lle ar gyfer ymateb i bryderon diogelu am y rhai y mae eu gwaith yn dod â nhw i gysylltiad â phlant neu oedolion sydd yn wynebu risg.

Eglurwyd bod 281 o blant mewn gofal ar ddiwedd Mawrth 2024. Cadarnhawyd bod niferoedd plant mewn gofal wedi lleihau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond oherwydd cyfrifoldebau'r Cyngor i warchod ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid, mae'r niferoedd o blant o dan ofal yr awdurdod yn parhau i fod yn 281, yn debyg i'r niferoedd ar ddiwedd Mawrth 2023. Yn yr un modd, cadarnhawyd bod niferoedd o adroddiadau Oedolion yn ystod y flwyddyn 2023/24 yn debyg iawn i'r niferoedd a adroddwyd ar ddiwedd Mawrth 2023.

Mynegwyd balchder bod y Cyngor wedi ennyn achrediad 'Rhuban Gwyn' gan ei fod yn cymryd dull strategol i roi diwedd i drais domestig ac i bwysleisio nad yw'n cael ei oddef o fewn y Sir. Ymhellach, nodwyd bod 55% o staff y Cyngor, sy'n gweithio yn y maes diogelwch cyhoeddus, wedi mynychu hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' er mwyn rhoi hyder iddynt i gefnogi unigolion sy'n profi trais, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Pwysleisiwyd ei fod yn flaenoriaeth i'r staff hynny fynychu'r hyfforddiant dros y flwyddyn nesaf.

Cyfeiriwyd at nifer o faterion sydd ar gynnydd yn y blynyddoedd diwethaf megis troseddau manwerthu (lladrad o siopa). Cadarnhawyd bod y Cyngor yn cydweithio gyda'r Heddlu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am gymorth i ymdopi â'r argyfwng costau byw ar gael iddynt, yn y gobaith bydd hyn yn lleihau'r niferoedd o droseddau manwerthu i'r dyfodol. Tynnwyd sylw at nifer o agweddau diogelu eraill sydd yn derbyn cefnogaeth y Panel megis Dyletswydd Trais Difrifol, Caethwasiaeth Fodern a Gwrthderfysgaeth.

Cadarnhawyd bod y Panel yn monitro'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Pwysleisiwyd bod y mwyafrif helaeth o unigolion yng nghyflogaeth y Cyngor gyda DBS cyfredol a chlir gyda rhai eithriadau megis cyfnodau mamolaeth a salwch.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Gofynwyd os oedd modd tracio'r nifer o staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Atal. Mewn ymateb nodwyd bod dau ffordd i gael mynediad at yr hyfforddiant. Adroddwyd bod y Swyddfa Gartref wedi datblygu hyfforddiant newydd ar gyfer Atal a'i fod hefyd ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd ar ffurf e-fodiwl. Sicrhawyd bod yr e-fodiwl hwn yn fandadol i'r holl weithlu erbyn hyn ac yr annogir staff i ddefnyddio'r porth e-ddysgu i gael mynediad iddo. Cydnabuwyd bod casglu data penodol ar niferoedd staff sydd wedi cwblhau'r modiwl hwn yn her oherwydd bod modd i unigolion ei gwblhau yn uniongyrchol drwy wefan y Swyddfa Gartref. Eglurwyd na fyddai'r unigolion hyn yn cael eu cynnwys yn y data a gesglir gan y porth e-ddysgu o fynychwyr yr hyfforddiant. Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n ceisio coladu'r wybodaeth a'n ei rannu pan fyddai ar gael.

Diolchwyd am yr adroddiad a'r gwaith a mynegwyd awydd i weld cynnydd yn niferoedd yr ystadegau megis 92% o'r "Prif Bersonau Diogelu" mewn Ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu penodol yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Credwyd y dylai'r ffigwr hwn fod yn 100%. Mewn ymateb eglurwyd ei bod yn annhebygol y byddai'r ystadegau yn cyrraedd 100% oherwydd rhesymau tu allan i reolaeth y Cyngor megis cyfnodau salwch tymor hir neu staff ar gyfnodau mamolaeth ond cytunwyd y dylid anelu at 100%.

Mewn ymateb i sylw am gyfrifoldebau Uwch Swyddogion yr Adran nodwyd bod dau Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd gydag un wedi ei leoli yn yr Adran Blant a'r llall yn yr Adran Oedolion. Nodwyd eu bod yn swyddogion dynodedig sydd â rôl benodol ac yn atebol o ran cyfrifoldeb diogelu. Eglurwyd bod oedolion sydd ag anableddau dysgu yn dod o dan gylch gwaith yr Adran Oedolion tra bod plant efo anableddau yn dod o dan yr Adran Blant.

Mynegwyd sylw bod swyddog o'r Heddlu yn arfer mynychu'r Pwyllgor hwn yn flynyddol yn y gorffennol ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol ail afael yn y trefniadau yma. Mewn ymateb nodwyd bod trefniant ar hyn o bryd i'r Heddlu fynychu'r Fforymau Ardal a byddai modd rhannu gwybodaeth drwy'r Fforymau hynny.

Mewn ymateb i sylw am ran 4.1.7 o'r adroddiad a niferoedd y plant sydd mewn gofal ac wedi eu lleoli gyda'u rhieni, nodwyd bod hyn yn rhan o'r strategaeth a bod yr Adran yn ceisio cadw plant efo'u rhieni gymaint ag sy'n bosib. Adroddwyd er bod y plant yn byw gyda'u rhieni bod llawer o gefnogaeth yn cael ei roi, credwyd ei bod yn well ceisio cadw plant efo'u teuluoedd ac yn y gymuned pan fo hynny'n bosib.

Mewn ymateb i gwestiwn pam bod niferoedd y cyfeiriadau yn parhau i fod 2,000 yn fwy na'r ffigyrau cyn y pandemig, eglurwyd bod effeithiau'r pandemig yn hirdymor yn enwedig ar blant a'i bod yn anodd gwybod pam a pryd y bydd gostyngiad yn y ffigyrau. Awgrymwyd efallai bod pobl yn fwy parod i gyfeirio bellach gan eu bod yn fwy ymwybodol o heriau. Nodwyd fod hyn bositif ond yn rhoi llawer o bwysau ar y gweithlu.

Gofynnwyd pa ddulliau sy'n cael eu defnyddio i hyrwyddo'r Polisi newydd i staff a Chynghorwyr. Adroddwyd bod bwriad cynnal hyfforddiant i staff a Chynghorwyr a byddai'r Uwch Reolwyr Diogelu ac Ansawdd yn rhan o'r hyfforddiant hwnnw ac yn ceisio codi ymwybyddiaeth ymysg staff ac Aelodau.

Mewn ymateb i gwestiwn am eglurder ynglŷn â'r diffiniad o ddiogelu ac amddiffyn, esboniwyd bod diogelu yn rhan o rôl pawb yn y gymuned a'r Cyngor sef i sicrhau bod pobl fregus yn ddiogel. Nodwyd bod diogelu yn gyfrifoldeb i Gynghorwyr a staff y Cyngor. Eglurwyd bod amddiffyn yn gyfrifoldeb penodol i'r Heddlu ac i'r Gwasanaethau Cymdeithasol e.e. i ymyrryd os yw rhywun wedi derbyn niwed neu risg sylweddol. Nodwyd bod cyfreithiau a pholisi dwys am amddiffyn.

I gloi cadarnhawyd bydd yr adroddiad, gan gynnwys sylwadau'r Pwyllgor Craffu Gofal, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. Diolchwyd i'r Pwyllgor am eu sylwadau.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

**9. DATBLYGU DARPARIAETH BRESWYL I BLANT MEWN GOFAL MEWN GRŴP BYCHAN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd ac y Pennaeth Cynorthwyol Adnoddau - Plant a Chefnogi Teuluoedd, gan nodi bod datblygiad cartrefi preswyl i blant mewn gofal yn un sy'n flaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor.

Rhannwyd cefndir i'r cynllun gan nodi bod oddeutu 280 o blant yng ngofal y Cyngor ar hyn o bryd. Diolchwyd i bawb sy'n rhan o'r cynllun maethu, gan fod y mwyafrif o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda theuluoedd maeth. Eglurwyd bod eraill yn byw gartref gyda'u teuluoedd ond yn derbyn cefnogaeth barhaus gan y Cyngor. Cydnabuwyd bod oddeutu 20 o blant yng ngofal y Cyngor sydd angen lleoliad preswyl ar hyn o bryd ac nid oes lleoliadau digonol ar gyfer gynnig y gwasanaeth hynny ar hyn o bryd heb allanoli. Atgoffwyd bod nifer o blant wedi eu lleoli mewn ardaloedd tu hwnt i Gymru ar hyn o bryd megis Bryste a Northumbria.

Cadarnhawyd mai nod y cynllun yw disodli'r angen i allanoli gyda darpariaeth a gyflenwir gan y Cyngor, gan lwyddo i ddarparu gofal preswyl i blant mewn gofal am gost sylweddol is na'r costau cyfartalog presennol.

Eglurwyd bod y cynllun yn lleoli 2 blentyn mewn gofal mewn tŷ yn y gymuned er mwyn sicrhau bod ganddynt gartref sefydlog pan nad yw maethu yn ddatrysiad priodol ar eu cyfer. Manylwyd ar nifer o fanteision y cynllun gan gynnwys derbyn gofal yn Gymraeg, parhau yn eu hysgol leol a pharhau i feithrin perthynas gyda theulu a ffrindiau ble'n bosibl. Cadarnhawyd mai prif ddiben y Cynllun yw darparu gofal arbenigol Cymraeg i blant yn lleol gan ddiddymu'r angen iddynt adael y sir, neu adael Cymru i'w dderbyn. Pwysleisiwyd bod y cynllun yn cydymffurfio gyda Chynllun Cydraddoldeb y Cyngor yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Esboniwyd bod tŷ addas wedi cael ei brynu ym Morfa Bychan ar gyfer cynnig gofal preswyl i blant rhwng 10 ac 18 oed. Amlygwyd mai'r pwyslais ar hyn o bryd yw sicrhau staff i'r tai er mwyn caniatáu i'r cynllun ddatblygu'n amserol cyn ystyried opsiynau o'r fath i'r dyfodol. Ymhelaethwyd y gobeithir prynu dau dŷ arall mewn cymunedau gwahanol yn y Sir yn fuan. Cydnabuwyd bod pryniant a chwblhau addasiadau i'r tŷ cyntaf yn broses araf oherwydd bod polisïau a gweithdrefnau angenrheidiol yn cael eu datblygu ar y cyd gyda datblygiad y tŷ. Pwysleisiwyd bydd pryniannau tai i'r dyfodol yn broses cyflymach oherwydd bydd y polisïau a gweithdrefnau hynny eisoes yn weithredol.

Adroddwyd bod angen i'r cynllun cael ei gwblhau erbyn diwedd 2027 gan bwysleisio bydd angen 3 cartref preswyl cofrestredig erbyn hynny. Cydnabuwyd bod nifer o risgiau yn deillio o'r amserlen hyn megis; anhawster i ganfod ail neu drydydd adeilad addas neu anhawster i gael y plentyn cyntaf yn y tŷ cyntaf erbyn mis Medi 2024. Nodwyd hefyd bod heriau recriwtio hefyd yn derbyn ystyriaeth gan yr Adran.

Tynnwyd sylw at y sefyllfa gyllidol drwy gadarnhau bod y cynllun yn cael ei ariannu drwy grant RIF/HCF gan gadarnhau bod dwy filiwn o bunnoedd wedi ei glustnodi ar gyfer cyflawni'r cynllun. Esboniwyd bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio er mwyn prynu tai addas a gwneud addasiadau iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag Arolygaeth Gofal Cymru sy'n angenrheidiol ar gyfer cofrestriad.

Cadarnhawyd bod blwyddyn gyntaf y cynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda nifer o dargedau'r cynllun yn cael eu cyflawni'n amserol. Ymhelaethwyd bod prif dargedau sydd eisoes wedi eu cyflawni yn cynnwys: Penodi Rheolwr Prosiect, prynu ac addasu'r tŷ cyntaf (ym Morfa Bychan) a datblygu Datganiad o Bwrpas a phosibiliadau ar gyfer y datblygiad.

Aethpwyd ymlaen i nodi'r prif dargedau ar gyfer ail flwyddyn y cynllun, gan gynnwys: Penodi Rheolwr ar gyfer y tŷ cyntaf (ym Morfa Bychan), cwblhau addasiadau ar gyfer y tŷ cyntaf ar gyfer cofrestriad Arolygaeth Gofal Cymru, adnabod a phryniant yr ail dŷ ac adnabod trydydd tŷ i brynu neu gyflwyno cais cynllunio ar ddarn o dir yn Arfon sydd eisoes ym meddiant y Cyngor. Cadarnhawyd bod yr Adran yn cydweithio gyda'r Adran Tai ac Eiddo.

Anogwyd yr aelodau i gynorthwyo'r Adran i hysbysebu swyddi sydd ynghlwm â'r cynllun o fewn eu wardiau. Nodwyd bod swyddi ar gyfer rheolwr y tŷ cyntaf, chwe swyddog preswyl a swyddi wrth gefn i'w gweld ar wefan y Cyngor ar hyn o bryd yn ogystal â chyfryngau cymdeithasol y Cyngor ac ar bosteri. Nodwyd y gobeithir bydd Rheolwr y tŷ yn gallu bod yn gyfrifol am ail dŷ yn y dyfodol er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y cynllun tra hefyd yn cydnabod nad oes gormodedd o unigolion a fyddai'n gymwysedig i'r rôl.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Croesawyd y cynllun gan fynegi safbwynt y dylai'r cynllun fod wedi cael ei weithredu flynyddoedd yn ôl. Serch hyn mynegwyd llongyfarchiadau i'r Adran am eu cynnydd diweddar gan fynegi balchder am y cynllun.

Pryderwyd am niferoedd y plant fydd yn parhau mewn lleoliadau allsirol ond cydnabuwyd bod angen cychwyn yn rhywle a'i fod yn broses fydd yn cymryd amser. Credwyd y byddai'r cynlluniau yma yn rhoi elfen o normalrwydd i'r plant o gymharu â'r hen gartrefi gofal mawr. Mynegwyd balchder fod yr Adran wedi ymgynghori yn lleol.

Esboniwyd nad oedd yn ofynnol i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater hwn. Er hyn, cadarnhawyd bod yr Adran wedi cynnal cyfarfod cyhoeddus yn yr ardal, er mwyn sicrhau bod aelodau'r gymuned yn derbyn cyfle i ofyn cwestiynau a mynegi unrhyw bryderon. Cadarnhawyd bod y mwyafrif o'r unigolion yn gefnogol o'r cynllun ond bod yr Adran wedi bod mewn cyswllt gydag un unigolyn sydd wedi datgan pryderon

Mewn ymateb i sylw am yr heriau o recriwtio, eglurwyd bod pamffledi wedi eu dosbarthu ddoe yn cyfeirio at ddigwyddiad ym Mhorthmadog a sesiwn i geisio annog ceisiadau am weithwyr.

Holwyd sut bydd y ddarpariaeth yn gweithio mewn perthynas merched a bechgyn. Eglurwyd mai un agwedd bwysig o'r rôl hon fydd asesu cefndir unigolion er mwyn sicrhau bod eu lleoliad preswyl yn addas a hefyd dilyn trefniadau a phrosesau ble'n briodol Nodwyd na fydd gwahaniaethu yn cael ei wneud ar sail merched a bechgyn a bydd y rheolwr yn penderfynu addasrwydd unigolion ar sail asesiadau am eu cefndir a'u hanghenion.

Mewn ymateb i gwestiwn am beth fydd yn digwydd pan fydd yr unigolion yn y tai yn troi'n ddeunaw oed, cadarnhawyd bod y cofrestriad yn caniatáu lleoliad preswyl nes yr oedran yma ond ni fydd yr unigolion hynny yn gorfod gadael y tŷ os nad oes darpariaeth addas amgen ar eu cyfer. Eglurwyd mai'r trefniant arferol mewn nifer o achosion yw bod yr unigolion yn symud i ddarpariaeth amgen ble bod cefnogaeth oruchwyliol ar gael. Ymhellach, sicrhawyd bod yr Adran wedi bod mewn trafodaethau gyda GISDA er mwyn defnyddio dau fflat yng Nghaernarfon ar gyfer trydydd cam y ddarpariaeth ble nad yw'r unigolion angen goruchwyliaeth a chefnogaeth barhaus, ond yn hapus i staff daro i mewn o'i bryd i'w gilydd. Pwysleisiwyd bod cyfnewid darpariaeth o'r fath yn cael ystyriaeth gan y gwasanaethau priodol, wrth iddynt droi yn 15 oed, er mwyn i'r cynllun gorau gael ei roi mewn lle iddynt pan yn ddeunaw oed.

Mewn ymateb i gwestiwn am ba ffactorau sy'n cael eu cysidro wrth ddewis lleoliad ar gyfer tŷ, eglurwyd bod pellter o drafnidiaeth gyhoeddus yn ffactor bwysig yn ogystal â phellter o'r Ysgol leol a chyfleusterau hamdden. Nodwyd bod ystyriaethau eraill hefyd megis llefydd parcio digonol i staff ac ymwelwyr a bod y lleoliad ddim yn sefyll allan ac yn gweddu i anghenion yr unigolion e.e. preifatrwydd.

Mewn ymateb i ymholiad am y gost o gadw plentyn mewn lleoliad allsirol nodwyd ei fod yn costio tua £6,600 yr wythnos i bob plentyn. Cymharwyd hyn a'r gost wythnosol o redeg un uned sef £440 yr wythnos. Adroddwyd y byddai hyn yn arbediad o £200,000-£250,000 y flwyddyn am bob dau o blant fyddai yn cael eu lleoli'n fewnol.

Mynegwyd balchder bod siroedd eraill gogledd Cymru yn awyddus iawn i ddatblygu cynlluniau cyffelyb ac mae trafodaethau mewn lle er mwyn rhannu syniadau, polisïau a chyfleoedd hyfforddi.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith i ddatblygu'r cynllun a mynegwyd datganiadau o pob llwyddiant i'r cynllun. Edrychwyd ymlaen i dderbyn diweddariad pellach pan fydd y plant wedi setlo.

**PENDERFYNWYD**

**a) Derbyn yr adroddiad gan ddymuno pob llwyddiant i'r datblygiad.**
**b) Nodi awydd y Pwyllgor i dderbyn diweddariad pan fydd y cartref preswyl wedi agor ac wedi cyfnod o setlo.**

## 10. GRŴP CRAFFU CYD-BWYLLGOR IECHYD A GOFAL CANOLBARTH CYMRU

**PENDERFYNWYD Ethol y Cynghorydd Linda Morgan i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu ar Grŵp Craffu Cydbwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru**

## 11. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu.

Atgoffwyd yr aelodau bod Blaenraglen y Pwyllgor yn seiliedig ar y materion a drafodwyd yng Ngweithdy Blynyddol y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2024.

Cadarnhawyd bod tair eitem wedi cael eu rhaglennu ar gyfer pob cyfarfod yn ystod y flwyddyn oni bai am un cyfarfod penodol ym mis Tachwedd i graffu'r maes Tai Cymdeithasol yn unig a chyfarfod ym mis Ionawr i drafod materion Iechyd megis pryder am feddygon teulu, iechyd meddwl a pherthynas cydweithiol â'r gwasanaeth ambiwlans.

Diweddarwyd bod yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu wedi derbyn cais gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried ychwanegu eitem 'Polisi Codi Tâl am Ofal' ar gyfer cyfarfod 26 Medi 2024. Esboniwyd bod yr Adran yn awyddus i dderbyn sylwadau ac ystyriaethau'r Pwyllgor cyn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet. Nodwyd y golyga hyn y byddai pedair eitem i'w craffu yng nghyfarfod 26 Medi 2024 o'r Pwyllgor.

Anogwyd yr Aelodau i ystyried pa faterion maent yn dymuno i'r Adrannau eu cynnwys yn yr adroddiadau i'r Pwyllgor. Ymhelaethwyd bydd modd i'r Aelodau drafod y materion hynny mewn cyfres o gyfarfodydd paratoi. Pwysleisiwyd mai nod y cyfarfodydd paratoi fydd canfod prif faterion sydd angen eu craffu o fewn y meysydd gan arwain at gwestiynau atodol yn y cyfarfodydd ffurfiol. Cadarnhawyd bydd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu yn ymgynghori â'r Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth er mwyn canfod dyddiadau addas ar gyfer y cyfarfodydd paratoi gan wneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal ar ddyddiau Iau oherwydd argaeledd yr Aelodau. Cydnabuwyd na fydd hyn yn bosib ar bob achlysur ond sicrhawyd bydd amser cychwyn y cyfarfodydd yn 4yh gan fod yr amser yma yn gyfleus i fwyafrif o'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD**

**a) Mabwysiadu rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25.**
**b) Cytuno i ychwanegu eitem ychwanegol Polisi Codi Tâl am Ofal (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) i gyfarfod 26 Medi 2024.**

## 12. CYFARFODYDD HERIO PERFFORMIAD OEDOLION, IECHYD A LLESIANT PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

**PENDERFYNWYD Enwebu'r Cynghorydd Einir Wyn Williams fel cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 14.00yp.

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 26 Medi 2024 |
| **TEITL** | Gwasanaeth Gofal Cartref |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Wedi ei gynnwys yn y ddogfen gweithdy blynyddol |
| **AWDUR** | Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Pan gyflwynwyd adroddiadau am sefydlu'r drefn o gomisiynu gofal cartref, gwnaed ymrwymiad i adrodd ar y drefn ymhen tua blwyddyn o'i sefydlu i gael asesu beth sydd wedi gweithio ac i adnabod materion i'w gwella. Yn sgil hynny, mae hwn yn fater sydd wedi'i gynnwys yn rhaglen graffu 2024 – 25.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

Mae aelodau'r Pwyllgor yn awyddus craffu gwybodaeth i bwyso a mesur effeithiolrwydd y ddarpariaeth gofal cartref ar draws y sir yn enwedig o ran cynnal a gwella gwasanaethau i drigolion. Gosodwyd cyfres o gwestiynau penodol gan y Pwyllgor I'w galluogi i wneud hyn. Mae'r cwestiynau yma a'r ymateb iddynt wedi eu cynnwys yn rhan 4 isod.

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

Prif neges yr adroddiad hwn yw fod y Cyngor wedi mabwysiadu model gofal cartref newydd ac uchelgeisiol yn lled ddiweddar, sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion a'r safonau comisiynu gofal cenedlaethol sydd wedi dod i rym ers cychwyn Medi eleni. Fe welir fod llawer o lwyddiannau i'w dathlu, nifer o ardaloedd lle nad oes prin unrhyw restr aros am ofal a bod potensial mawr i wella ansawdd bywyd trigolion sydd angen gofal a staff. Serch hynny, ni allwn anwybyddu'r ffaith fod anawsterau yn bodoli yn rhai ardaloedd o'r Sir, a bod yr heriau lawn mor niferus â'r llwyddiannau. Mae gwaith mawr, felly, o flaen y Bwrdd Prosiect Gofal Cartref, a bydd angen rhoi blaenoriaeth ac adnodd digonol i'r gwaith hwnnw.

**4. Cefndir / Cyd-destun**

4.1 Mae newidiadau wedi eu gwneud i'r ffordd mae'r Cyngor yn darparu gofal cartref gyda'r Cyngor yn darparu gwasanaethau mewn rhai ardaloedd ac yn comisiynu eraill i ddarparu gwasanaeth mewn ardaloedd eraill.

4.2 Arwyddwyd cytundebau gyda darparwyr allanol ym mis Tachwedd 2022, pan gychwynnwyd ar y gwaith o drosglwyddo i'r model newydd. Ers hynny mae'r gwaith

wedi parhau i geisio sicrhau fod ffyrdd newydd o weithio yn datblygu ar draws y Sir i gyd-fynd â'r egwyddorion hyn:

- Gwell telerau a threfniadau gwaith i staff
- Mwy o hyblygrwydd i drigolion a ffocws mwy eglur ar be sy'n bwysig iddyn nhw
- Cydweithio rhwng darparwyr a staff iechyd a gofal yn y gymuned, er mwyn cynnig gwasanaethau sydd wedi'u cydlynu'n well a gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau prin
- Manteisio ar gryfderau cymunedau lleol i atgyfnerthu'r gofal sydd ar gael a gwella ansawdd byw pobl.

4.3 Mae ffigyrau ail wythnos Medi yn dangos fod 8,800 awr o ofal cartref yn cael ei ddarparu ledled y Sir, ond bod 920 awr ychwanegol na ellir ei ddiwallu sy'n golygu fod 126 o bobl ar restr aros am ofal. Yn amlwg, nid yw hon yn sefyllfa dderbyniol, ac mae ymdrechion sylweddol ar y gweill i gymryd camau megis:

- Cefnogi pobl sy'n asesu am ofal i ystyried holl gryfderau'r unigolyn a'r gymuned a pheidio comisiynu gofal pan nad hwnnw ydy'r datrysiad gorau
- Cydweithio â phartneriaid mewn cymunedau i ddatblygu hybiau cymunedol a darpariaethau cymunedol addas i gyfarch anghenion pobl
- Mireinio prosesau gwaith ac ansawdd trafodaethau lleol er mwyn sicrhau fod adnoddau staff yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon bosib.

4.4 Mae aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol, a rhoddir ymatebion iddynt isod:

**Cwestiwn 1: Ydy'r ffordd bresennol o ddarparu gofal cartref yn gweithio?**

Rydym yn credu fod y ffordd bresennol o ddarparu gofal cartref yn gweithio yn rhannol. Down i'r casgliad hwn ar sail y prif ffeithiau canlynol:

- Gwyddem, wrth gyflwyno model a chytundeb newydd, sy'n symud i ffwrdd oddi wrth fodel traddodiadol 'tasg ac amser', ei fod yn newid meddylfryd a newid ffordd o weithio ar raddfa fawr. Fel roeddem yn ei ddisgwyl, nid yw pob rhan o'r system yn gweithio i gyd-fynd â'r egwyddorion allweddol eto, ac mae hi'n broses o ddysgu a datblygu fydd yn debygol o gymryd blynyddoedd. Mae sicrhau bod y newidiadau yn digwydd yn heriol iawn, yn enwedig mewn cyfnod lle mae adnoddau yn mynd yn brinnach a phwysau gweithredol ar dimau rheng flaen yn cynyddu

- Mae tystiolaeth yn parhau fod yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad, mewn gwirionedd, yn gymysgedd o weithio ar sail y model newydd a gweithio ar sail yr hen fodel. Mewn cyfnod o bwysau mawr ac aelodau staff yn mynd a dod, mae'n ddealladwy. Cafodd dull Ffordd Gwynedd ei ddefnyddio wrth ail-ddylunio'r model. Mae hwn yn ddull lle mae timau yn gweithio allan beth sy'n gweithio'n dda ac yn dod i weld drostynt eu hunain sut mae angen newid. Mae'n hanfodol bwysig fod unrhyw un sy'n newydd i'r dull yn cael y cyfle i ddad-ddysgu'r hen ffordd o weithio, ac ail ddysgu'r ffordd newydd, efo cefnogaeth eu harweinyddion.

- Er bod llawer o staff wedi mynegi eu bod yn hoff o'r patrymau gwaith shifft sydd wedi'u cyflwyno gan bob darparwr, nid ydym eto yn gweld effaith bositif sylweddol ar allu i recriwtio i'r sector ac felly nid ydym yn medru diwallu'r gofyn am ofal yn llawn

- Oherwydd anhawster, mewn rhai ardaloedd, i gyflawni'r holl oriau gofal angenrheidiol, mae gofal wedi'i gomisiynu ar sail 'pryniant sbot' a / neu oedi wedi bod cyn cyflawni trosglwyddiadau pecynnau gofal a staff. Mae'r pethau yma wedi digwydd i geisio diwallu anghenion pobl a chreu cyn lleied â phosib o ansicrwydd a phryder. Yn anffodus, maent hefyd wedi golygu fod sefydlu'r model 1 darparwr i bob is-ardal (neu 2 mewn ambell le) wedi bod yn arbennig o heriol ac wedi ein rhoi dan bwysau ariannol uwch na'r disgwyl.

- Er nad yw pethau yn fêl i gyd, mae'r gwaith o ail dendro gofal cartref wedi golygu fod pob un o'n darparwyr allanol naill ai yn gwmni trydydd sector dielw, neu yn gwmni preifat teuluol lleol â lefel elw bychan (o dan 5% o bris y gwasanaeth). Golyga hyn ein bod yn cyfrannu at ffyniant yr economi sylfaenol, ac mae gennym enghreifftiau niferus o'r modd y mae gwerth cymdeithasol yn cael ei greu drwy gyfrwng ein hymarfer comisiynu yn y maes hwn. Ar lefel strategol, felly, gellir bod y ffyddiog fod elfennau o weledigaeth y Cyngor yn cael eu gwireddu hyd yn oed pan nad yw pethau yn gweithio'n berffaith o safbwynt gweithredol ar lawr gwlad.

Bydd gweddill yr adroddiad yn ymhelaethu ar rai o'r agweddau uchod.

Dylid nodi fod Bwrdd Prosiect newydd wedi'i sefydlu o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Y mae'n mynd i'r afael â'r materion sydd dal angen sylw cyn y byddwn yn medru dweud â hyder fod ein ffordd o ddarparu gofal cartref yn gweithio yn effeithiol.

Yn ogystal, mae'n werth nodi fod y Bwrdd Prosiect yn derbyn cefnogaeth allanol i wireddu ei amcanion. Rydym newydd dderbyn adroddiadau manwl yn dilyn prosiect cefnogol gan IMPACT (Improving Adults Care Together). Yn ogystal, mae Archwiliad Mewnol wedi'i gynnal, yn edrych ar y trefniadau cyllidol perthnasol. Mae swyddogion wedi derbyn adroddiad drafft, a sylwadau wedi'u rhannu â'r tîm archwilio. Bydd y canfyddiadau yn rhan allweddol o'n ymdrechion i sicrhau gwelliannau ym mhob rhan o'r system gofal cartref.

Hefyd, mae prosiect ar y gweill, gyda chefnogaeth allanol Cwmpas ac Athro o Ysgol Reolaeth Prifysgol Abertawe ar gyfer gwerthuso, i geisio dysgu sut y gellir gwreiddio ein model gofal cartref yn effeithiol mewn un ardal yng Ngwynedd, ac ardal arall yn Ninbych. Mae'r prif negeseuon yn yr adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau gan y cyrff uchod yn ogystal â chyfleu barn swyddogion y Cyngor.

**Cwestiwn 2: Beth yw'r llwyddiannau a'r heriau?**

Dyma'r 5 prif lwyddiant a'r 5 prif her fel rydym ni yn gweld pethau.

<u>Llwyddiannau</u>

1. Mae enghreifftiau niferus sy'n dangos cydweithio rhwng darparwyr, timau iechyd a gofal a grwpiau cymunedol / partneriaid yn y 3ydd sector er mwyn gwella

ansawdd bywyd pobl. Mae'r rhain yn cynnwys darparwyr yn helpu i sefydlu clwb cinio a threfnu cymorth gan gynllun trafnidiaeth gymunedol a dod â phobl mewn Tai Gofal Ychwanegol a'r gymuned ehangach ynghyd i rannu adnoddau a chymdeithasu. Yn ddiweddar, gwelwyd darparwr yn codi arian elusennol a chydweithio gyda gwasanaeth Anableddau Dysgu'r Cyngor i gael benthyg bws mini a threfnu taith i bobl sy'n wynebu unigrwydd.

2. Ar draws y sector, rydym wedi sicrhau nad ydy staff yn wynebu patrwm gwaith a threfniadau talu sy'n golygu eu bod nôl ac ymlaen o'u cartref i'w gwaith sawl gwaith y dydd, ac yn gweithio dros nifer fawr o ddyddiau'r wythnos. Fel y byddem yn ei ddisgwyl gyda gweithlu o gannoedd o bobl, nid yw'r un trefniadau gwaith yn plesio pawb, ond mae'r adborth yn gyffredinol gan ein darparwyr yn ffafrifol. Rydym hefyd wedi sicrhau nad oes hawl i roi cytundeb 'oriau sero' i staff, oni bai eu bod nhw'n gofyn amdano, ac mae enghreifftiau cadarnhaol o bobl yn cael morgais am y tro cyntaf o ganlyniad i hyn.

3. Drwy roi rhyddid i staff a theuluoedd weithio â'i gilydd yn fwy hyblyg, rydym wedi gweld sut mae modd i'n model gofal cartref wneud wir wahaniaeth. Ceir enghreifftiau o unigolion yn derbyn gofal wedi'i deilwra yn ofalus i ymateb i'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae tystiolaeth gan rai darparwyr o'r ffordd maent yn rhoi'r hyblygrwydd ar waith, drwy gyflawni tasgau 'gwerth ychwanegol' yn unol â'u cytundeb.

4. Rydym wedi llwyddo i weithredu'r hyn oedd angen ei gyflawni yn y cyfnod trosiannol (symud pecynnau gofal ac aelodau staff rhwng darparwyr) mewn modd arbennig o effeithiol. Prin iawn oedd achosion o gwynion neu anfodlonrwydd ymysg unigolion, teuluoedd ac aelodau o staff o ystyried maint yr her. Mae hyn yn dyst i sensitifrwydd ac ymroddiad timau gofal cymdeithasol a gofal cartref wrth gefnogi unigolion bregus drwy gyfnod o newid, a'r gallu i weithredu newid mawr ochr yn ochr â chynnal gwasanaethau craidd.

5. Ers y 1af o Fedi eleni, y mae fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer comisiynu gofal a chymorth wedi dod i rym : Y fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: cod ymarfer (llyw.cymru) <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-07/y-fframwaith-cenedlaethol-ar-gyfer-comisiynu-gofal-a-chymorth-cod-ymarfer.pdf> Mae ein gwaith i ail fodelu ac ail gomisiynu gofal cartref, a wnaed gan ddilyn dull ac egwyddorion Ffordd Gwynedd, yn cyd-fynd yn llwyr â'r egwyddorion a'r safonau comisiynu sydd o fewn y cod ymarfer hwn. Mae lle i ddathlu fod aelodau Cyngor Gwynedd wedi cefnogi'r symudiad hwn a chefnogi'r gwaith i geisio sicrhau fod yr heriau ar hyd y daith yn cael eu goresgyn. Rydym wedi bod yn rhan o'r grŵp technegol fu'n datblygu'r fframwaith, ac wedi cael dylanwad uniongyrchol ar y cyfeiriad cenedlaethol. Mae hwnnw'n gyfeiriad yr ydym yn ei groesawu ac yn her rydym wedi profi y medrwn ymgymryd â hi. Mae nifer fawr o awdurdodau lleol yng Nghymru a thu hwnt mewn cyswllt â ni, oherwydd eu hawydd i fabwysiadu model sy'n gweithio ar sail yr un egwyddorion.

Heriau

1. Er gwaethaf pob ymdrech i wella telerau, amodau gwaith a phatrymau gwaith staff gofal cartref mewnol ac allanol, mae recriwtio a chadw digon o staff yn parhau i fod yn her enfawr. Mewn ardaloedd lle mae'r model newydd yn dechrau gwreiddio yn dda, gwelwn fod staff yn gweld buddiannau personol sy'n mynd y

tu hwnt i gyflog yr awr. Ond megis dechrau ydym ni, ac fe gymer amser i newid y ddelwedd a'r ddealltwriaeth sy'n bodoli ynglŷn â beth yn union ydy natur y swydd ar ei newydd wedd. Ar ben hynny, er bod Cyngor Gwynedd wedi penderfynu sicrhau cynyddu cyflogau yn y sector allanol drwy gyfrwng ei ofynion cytundebol, nid yw'r arian o fewn y system yn ddigonol i fedru cystadlu â chyflogau o fewn sectorau eraill. Rydym yn parhau i golli staff i'r Bwrdd Iechyd ac i siopau ac ati. Hefyd, mae'r drefn budd-daliadau yn golygu nad yw'n fanteisiol yn aml iawn i staff weithio dros hyn a hyn o oriau'r wythnos. Rydym yn brwydro yn erbyn ffactorau systemig anodd dros ben, ond yn parhau i geisio profi i'r gweithlu fod boddhad a chyfleodd mawr i'w cael o fod yn ofalwr cartref.

2. Ein gweledigaeth yw ein bod yn cynnig gofal sy'n cefnogi pobl i fyw eu bywydau mor debyg â phosib i'r ffordd y bydden nhw'n byw o ddydd i ddydd pe na baent angen cymorth. Yn draddodiadol, mae gofal wedi bod yn bur unffurf (yr un nifer o alwadau, am yr un nifer o funudau, ar yr un amser, bob dydd). Os am sicrhau ansawdd bywyd, rhaid cael hyblygrwydd i bobl, yn cynnwys y staff, a rhaid cydnabod nad yw popeth yn rhagweladwy wrth gynllunio rotas staff. Yr her fawr yw cael y cydbwysedd priodol rhwng creu hyblygrwydd yn y system, a sicrhau cost-effeithlonrwydd. Mae ein darparwyr allanol, ar hyn o bryd, yn gwneud darn o waith i ddangos sut y gellir darparu gwasanaeth mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'n cytundeb ni (a'r gofyn am hyblygrwydd i gyfarch be sy'n bwysig i bobl) ond sydd hefyd yn sicrhau hyfywdra ariannol ar sail pris y contract. Yn fewnol, rydym yn adolygu patrymau shifftiau staff i sicrhau fod staff digonol yn gweithio ar yr adegau pan fo'r galw yn debygol o fod yn bodoli, ac nad oes staff yn segur.

3. Agwedd uchelgeisiol o'r model gofal cartref yw ei fod yn newid ar draws system iechyd, gofal a'r gymuned. Ni wnaiff lwyddo heb i ni gael gwahanol rannau o'r system yn gweithio yn yr un ffordd a chyda'r un meddylfryd. Gwelsom o waith hunan arfarnu diweddar gyda thimau lleol ym mhob is-ardal mai un o'n prif heriau yw sicrhau dealltwriaeth lawn a chyson o nodweddion y model gofal cartref. Mae'n ofyn cytundebol i ddarparwyr fod yn rhan lawn o'r timau adnoddau cymunedol, ond nid yw hyn wedi'i wireddu ymhobman. Hefyd, disgwylir i dimau adnoddau cymunedol (yn cynnwys y darparwyr) adnabod eu hardal leol yn dda a sicrhau rhwydweithiau cymunedol a thrydydd sector cryf. Mae hyn er mwyn cefnogi trigolion i fanteisio ar gryfderau ac asedau lleol, a lleihau'r ddibyniaeth ar ofal ffurfiol. Mae angen i ni geisio goresgyn yr her hon, drwy gefnogi staff i ddatblygu perthnasau ac i fod â'r amser i wyntyllu syniadau amrywiol ynglŷn â sut i gyfarch canlyniadau personol unigolion.

4. Rhan o'n bwriad i'r dyfodol yw datblygu sgiliau gweithwyr gofal cartref. Rydym eisiau iddynt fedru rhoi meddyginiaeth i bobl (ar hyn o bryd, ni all y mwyafrif wneud mwy yn ddiogel nag atgoffa pobl i'w gymryd). Mae llwyddiant wedi bod wrth dreialu sut y gallai hyn weithio, gyda grŵp bychan o staff mewnol y Cyngor a chefnogaeth y Bwrdd Iechyd. Yn ogystal, mae polisi newydd wedi'i lunio sy'n amlinellu cyfrifoldebau comisiynu a chyfrifoldebau gweithredu yn y maes pwysig hwn. Ei fwriad yw sicrhau diogelwch pobl, gwarchod staff a sicrhau fod y corff atebol yn talu am wasanaeth, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau. Yr her fawr sy'n ein hwynebu ydy canfod cyllid ac amser digonol i gwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol, a goruchwylio staff yn unol â'r disgwyliad er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn gymwys dros amser. Agwedd arall o sgiliau hanfodol i'w datblygu ydy sgiliau galluogi. Er mai'r nod yw bod pob gofal cartref yn 'galluogi' pobl,

gwyddom ar hyn o bryd fod lefel sgiliau'r gweithlu yn llawer rhy isel. Golyga hyn fod dibyniaeth ar wasanaethau yn uwch nag y dylai fod.

5. Yn fewnol ac allanol, mae natur ein systemau casglu ac adrodd ar ddata, cywirdeb data a'n defnydd ohono wedi bod yn wan dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gwelliant yn y maes hwn yn un o'n blaenoriaethau ac yn rhywbeth sy'n derbyn sylw. Mae methiannau yn y meysydd hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa fregus o ran ceisio rhagweld y galw i'r dyfodol, deall tueddiadau, rheoli perfformiad, rheoli gwariant, defnyddio amser staff yn y ffordd fwyaf effeithiol a chynllunio gwasanaeth. Gwyddom nad yw'r mwyafrif o'r systemau TG ar y farchnad yn gydnaws â natur ein model gofal cartref ni, a bod hyn yn peri anawsterau i ddarparwyr, yn fewnol ac allanol. Rydym wedi bod yn llwyddiannus wrth ymgeisio am £0.25m o arian y Llywodraeth, fydd yn ein galluogi i dreialu'r defnydd o systemau TG allai gefnogi'r model yn well.

Mae'n werth nodi fod darparwyr gofal cartref Gwynedd wedi sefydlu fforwm lle maent yn dod at ei gilydd i geisio sicrhau datblygiad a gwelliannau parhaus. Gwelwn hwn fel symudiad cadarnhaol iawn all gyfrannu i wella effeithiolrwydd y drefn ac ansawdd gwasanaethau i drigolion. Maent wedi dewis 3 maes blaenoriaeth i'r grŵp, sef: Cynaliadwyedd Ariannol a Chyllid, Recriwtio a Chadw Staff a Systemau TG.

**Cwestiwn 3: Oes problemau mewn rhai ardaloedd?**

Oes, yn anffodus, mae problemau yn bodoli mewn rhai ardaloedd yn fwy na'i gilydd, ac fel y nodir uchod, mae gennym restr aros am ofal cartref. Mae'r rhestr aros yn llai nag y buodd dros y 12-18 mis diwethaf, ac rydym yn hyderus fod gweithio tuag at y model newydd yn un o'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at hyn. Fel y dangoswyd yn ein gwerthusiad allanol o'r gwaith peilota, os yw'r amodau yn iawn, gellir lleihau dibyniaeth ar ofal, a gwella profiadau staff. Ond, yn anffodus, ar hyn o bryd, yr hyn a welwn yw bod sefyllfa'r farchnad a natur y galw yn anwadal, ac yn medru newid yn gyflym iawn. Dyma wybodaeth fel y mae pethau ganol Medi:

<u>Rhestrau aros</u>
Ar y cyfan, gwelir fod gan is-ardaloedd restrau aros mawr iawn, neu fach iawn. O'r 17 is-ardal, mae 5 neu lai o bobl ar y rhestr aros yn 11 ohonynt. Yn anffodus, mae 4 is-ardal lle mae dros 15 person ar y rhestr aros (Dyffryn Nantlle, Llanberis, Pwllheli a Thywyn). Nid oes gwir batrymau o ran ardaloedd daearyddol nag o ran y sector – mae 2 o'r rhain yn fewnol, a 2 yn allanol.

Ein pryder mwyaf ar hyn o bryd yw ardal Tywyn, lle mae 24 person yn aros am ofal wrth i ni baratoi'r adroddiad hwn. Mae'r Penaethiaid Cynorthwyol sy'n gyfrifol am y gwasanaethau Oedolion a Darparu Mewnol yn cydweithio yn agos iawn â'r timau perthnasol i gymryd camau priodol i wella'r sefyllfa hon ar fyrder.

<u>Anhawster i gyfarch y galw mewn is-ardal</u>
Ers arwyddo cytundebau gyda'r sector allanol, mae dwy is-ardal lle mae'r Cyngor a'r darparwr enillodd y cytundeb wedi dod i ddealltwriaeth fod rhaid i'r cytundeb ddod i ben. Mae hynny oherwydd nad yw wedi bod yn bosib i'r darparwr recriwtio a chadw lefelau staff digonol i gyfarch y galw - hyn yn Ffestiniog ac Ardudwy.

Rydym wedi ail dendro yn Ffestiniog ac wedi rhoi cytundeb i ddarparwr amgen. Hyd yma, nid yw'r darparwr hwnnw wedi medru recriwtio digon o staff i gyfarch y gofyn ond rydym yn cadw golwg ar y sefyllfa. Aethpwyd allan i dendr ar yr un pryd i geisio sicrhau darparwr allanol i gydweithio â'r darparwr mewnol yn ardal Eifionydd, gan ei bod yn anodd iawn diwallu'r galw yno. Yn anffodus, ni fu i unrhyw ddarparwr allanol ymgeisio am y cytundeb hwnnw. Mae camau wedi'u cymryd i gynnig gwaith i ddarparwr allanol amgen yn ardal Ardudwy, o dan gytundeb byr dymor, tra rydym yn penderfynu pa gamau i'w cymryd er gwell yn yr ardal honno.

<u>Crynodeb o ganfyddiadau</u>
Gwyddom fod y farchnad o dan bwysau aruthrol. Wrth ddadansoddi ein dealltwriaeth o'r farchnad, daw'n amlwg:

- Nad yw un sector neu'r llall (mewnol / allanol) yn ei chael yn haws na'r llall i gynnal gwasanaeth
- Nad yw anawsterau wedi'u cyfyngu i rannau penodol o'r Sir (ac eithrio ardal Bangor, sy'n ymestyn o'r Felinheli am Fethesda), mae rhyw ran o'r gogledd, canol a'r de yn wynebu problemau
- Nad yw un sector neu'r llall yn fwy tebygol na'i gilydd i fod â rhestrau aros maith
- Nad yw cael is-ardal sydd wedi'i rhannu rhwng y darparwr mewnol a chwmni allanol yn ateb syml i geisio lleddfu anawsterau cyfarch y galw am ofal
- Nad yw darparwr sy'n ymddangos yn llwyddiannus mewn un is-ardal, o anghenraid, yn llwyddiannus ymhobman
- Fod y cymalau yn ein cytundeb sy'n golygu fod rhaid i ddarparwyr fod yn barod i weithredu ar draws ffiniau is-ardaloedd yn werthfawr ar adegau pan fo angen mwy o gapasiti mewn ardal benodol a / neu pan fo'r galw yn llai na'r oriau cytundeb yn rhywle.

<u>Ffordd ymlaen</u>
Mae ymateb i ansefydlogrwydd y farchnad ac ansicrwydd am fedru diwallu anghenion gofal cartref pobl yn rhoi pwysau aruthrol ar staff, yn weithwyr cymdeithasol, swyddogion comisiynu a chontractio, swyddogion sicrhau ansawdd a darparwyr.

Teimlir y byddai'n fanteisiol iawn cael rhywun yn gyfrifol am reoli'r capasiti gofal cartref ym mhob is ardal (yn cynnwys cymryd trosolwg o'r rhestrau aros a'r galw sy'n dod o gyfeiriad ysbytai). Mae potensial i ryddhau llawer o amser gweithwyr cymdeithasol. Oherwydd hyn, rydym yn awyddus i ystyried ymhellach y syniad o gael goruchwylwyr / rheolwyr gofal cartref yn gyfrifol am asesu anghenion, blaenoriaethu adnoddau a chadw golwg ar lefel y galw a'r ddarpariaeth.

Gwyddom ein bod yn darparu mwy o ofal cartref fesul 100,000 o'r boblogaeth na'r mwyafrif o siroedd Cymru. Rydym yn rhoi sylw i newid ein arferion er mwyn ceisio osgoi troi at ofal cartref oni bai ei fod yn ddatrysiad cwbl addas. Gall hyn hefyd arwain at sefyllfa lawer gwell o ran medru cwrdd â'r gwir alw.

**Cwestiwn 4: Os oes problemau a oes gennych chi gynlluniau i gyfathrebu gyda/diweddaru aelodau lleol o'r sefyllfaoedd, yn arbennig rhai sy'n arwain at flocio gwlâu mewn ysbytai?**

Pan fo problemau, rydym wastad yn ceisio sicrhau fod yr holl fudd-ddeiliaid allweddol yn gwybod beth ydy'r sefyllfa ac yn cyfathrebu yn y modd sydd fwyaf priodol. Weithiau, byddwn ni'n gofyn i aelod(au) lleol am sgwrs i ni gael briffio ar sefyllfa, dro arall daw

aelod atom ni gydag ymholiad a byddwn yn trafod. Dros y misoedd diwethaf, mae anawsterau mewn ardaloedd penodol wedi arwain at gyfarfodydd niferus rhwng swyddogion ac aelod(au) lleol. Gwelwyd fod y berthynas waith hon a'r ddealltwriaeth o deimladau ac amgylchiadau lleol gan aelodau wedi bod yn werthfawr iawn wrth gyrraedd datrysiad.

Rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth am sefyllfa gofal cartref, ymysg pethau eraill, drwy fynychu cyfarfodydd Fforymau Ardal ym mhob ardal. Mae'r adborth o'r sesiynau hyn yn dangos fod hyn yn cael ei werthfawrogi, ac mae'n aml yn fforwm gwerthfawr iawn ar gyfer rhannu gwybodaeth a chyfathrebu dwy ffordd.

Nid oes gennym drefniadau gwahanol, penodol, ar gyfer adrodd ar achosion lle mae rhywun yn gorfod aros yn yr ysbyty oherwydd diffyg gofal cartref, ond byddwn yn codi pethau fel rhan o'r trafodaethau uchod yn ôl yr angen. Pe bai aelodau eisiau gwybodaeth gennym, gallem yn hawdd adnabod nifer yr achosion ar y rhestrau aros gofal cartref sy'n ymwneud â phobl sydd mewn ysbytai.

**Cwestiynau ychwanegol**
Yn atodol i'r 4 prif gwestiwn uchod, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i ni ymateb i'r cwestiynau isod:

**Sut mae'r Cyngor yn sicrhau bod y gwasanaeth sy'n cael ei roi gan y Cyngor a'r sector breifat o'r un ansawdd? Allwch chi ddarparu asesiad SWOT er mwyn dangos cryfderau a gwendidau'r gwasanaeth a roddir gan y Cyngor a'r sector breifat?**
Mae Cyngor Gwynedd yn darparu mwy o ofal cartref yn fewnol na mwy na heb unrhyw gyngor arall yng Nghymru a Lloegr, a thrwy hynny yn cynnig cyfle i ni ddylanwadu'n uniongyrchol ar ansawdd y gwasanaeth. Un nod oedd gennym wrth gyflwyno'r cytundebau gofal cartref newydd oedd sicrhau cysondeb ar draws sectorau mewnol ac allanol. Yn y gorffennol, roedd gwahaniaethau o safbwynt natur y gwasanaeth (ee 'galluogi' ddim ond yn wasanaeth mewnol), telerau staff (cyflogau mewnol yn llawer uwch, a thaliadau yn cael ei roi am amser teithio) a'r berthynas gyda thimau iechyd a gofal.
Er nad yw'r darparwr mewnol wedi arwyddo 'cytundeb', y mae wedi cytuno i weithio yn unol â'r cytundeb, ac mae ei raglen waith datblygol yn anelu at hynny.
Mae gennym fynediad at holl adroddiadau arolygu allanol ein darparwr mewnol a darparwyr allanol, yn ogystal ag adroddiadau hunan arfarnu pob darparwr. Mae'n ofyn statudol fod pawb yn darparu adroddiad blynyddol,. Ar ben hynny rydym wedi sefydlu trefn lle mae'r darparwyr i gyd, ar y cyd â'r tîm iechyd a gofal yn lleol, yn hunan arfarnu yn erbyn gofynion y cytundeb.
Cam pwysig sydd angen ei gymryd, ac sy'n rhan o raglen waith y Bwrdd Prosiect Gofal Cartref, yw sefydlu trefn ar gyfer casglu'r holl fesuryddion sy'n rhan o'r cytundeb gofal cartref. Bydd hyn yn ein galluogi i gymharu perfformiad ar draws sectorau, a byddai'n haws cynnal ymarferiad 'SWOT' unwaith y bydd hynny yn ei le.
Ar sail ein gwybodaeth, natur cwynion, sylwadau budd-ddeiliaid ac ati, nid oes gennym le i gredu fod un sector yn well na'i gilydd yn gyffredinol. Yr hyn a welwn yw pocedi o ymarfer da, a sgôp i ddysgu rhwng pob darparwr â'i gilydd. I'r perwyl hwn mae Fforwm Darparwyr wedi'i sefydlu, sy'n cael ei arwain gan y darparwyr, a hefyd grŵp cefnogol ar gyfer goruchwylwyr y sector gyfan. Bydd hyn yn galluogi pobl i gefnogi ei gilydd i ddatblygu a gwella drwy'r adeg.

**Beth yw effeithiau negyddol defnyddio'r sector breifat i ddarparu gwasanaeth yn hytrach na darparu'n fewnol?**
Fel y nodir uchod, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw effeithiau negyddol amlwg y gellir ei briodoli i sector y gwasanaeth a roddir. Rydym yn credu fod cael marchnad gymysg yn dod â'i fanteision ei hun. Mae rhai o'r darparwyr yn cynnig sgiliau arbenigol gwerthfawr, a natur gytundebol yn rhoi ffocws clir ar hyfywdra ariannol gan nad yw mor hawdd i ddarparwr allanol dderbyn cyllid ychwanegol os yw'n gorwario. Mae'n rhaid i ni gofio fod cost cynllun pensiwn Llywodraeth Leol yn golygu fod pris darparu gofal cartref mewnol gryn dipyn uwch na'r sector allanol, hyd yn oed os yw cost pob agwedd arall yr un fath.
Wedi dweud hynny, gellir meddwl am fanteision o gael marchnad fewnol yn unig:

- Symud i ffwrdd oddi wrth y meddylfryd fod gofal yn rhywbeth sy'n rhan o broses prynu a gwerthu, a'i weld fel rhywbeth creiddiol o fewn gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau
- Osgoi costau a biwrocratiaeth sydd ynghlwm â phrosesau comisiynu, caffael a thalu
- Haws goresgyn materion ymarferol fel gofynion llywodraethu gwybodaeth, mynediad i adeiladau a chysoni ymarfer neu bolisi
- Mwy o sicrwydd fod % briodol o'r gweithlu yn siaradwyr Cymraeg ac yn medru cwrdd â gofynion strategaeth Mwy na Geiriau
- Rheolaeth fewnol felly potensial i roi newidiadau ar waith yn gynt
- Potensial i ystyried newidiadau mewn rolau a diddymu ffiniau rhwng swyddogaethau, er mwyn gwella profiad trigolion a chryfhau cydweithio.

**Beth yn union mae "comisiynu <u>eraill</u> i ddarparu gwasanaeth" yn ei feddwl– a'i comisiynu'r sector breifat mae hyn yn ei olygu? Os felly beth yw goblygiadau hynny o ran ansawdd y gofal a hawliau gweithwyr?**
Mae 'eraill' yn golygu cyfuniad o ddarparwyr 3ydd sector a darparwyr preifat. Yn dilyn proses dendro ar gyfer 10 is-ardal, enillodd darparwyr 3ydd sector 3 o'r 10 cytundeb. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth fod ansawdd y gofal yn well neu'n waeth yn ddibynnol ar y sector (mewnol, 3ydd sector, preifat). Mae gwasanaeth pob darparwr wedi'i gofrestru gan Arolygaeth Gofal Cymru, ac yn cael ei arolygu yn rheolaidd. Yn ogystal, mae'r un prosesau diogelu yn cael eu dilyn ar gyfer pob darparwr ac rydym yn gofyn i bawb weithredu'r un trefniadau hunan arfarnu â'i gilydd. Yn ddiweddar, mae trefniadau gwaith ein tîm Sicrwydd Ansawdd Mewnol wedi'u haddasu er mwyn cryfhau lefel yr adnodd a roddir i geisio sicrhau ansawdd gofal cartref ar draws y sectorau.

Un o'n prif amcanion wrth baratoi'r cytundeb newydd oedd sicrhau mwy o gysondeb o ran hawliau gweithwyr, a'u gwella yn gyffredinol. Ar adeg arwyddo cytundebau, roedd disgwyl i dâl yr awr ar gyfer gweithwyr gofal cartref allanol fod ar o leiaf yr un lefel â gweithwyr gofal cartref y Cyngor (a'r lefel honno yn cyd-fynd â'r Cyflog Byw Gwirioneddol). Ers hynny, mae'r Cyngor wedi cynyddu cyflogau staff sy'n golygu fod rhai allanol yn ennill llai na staff mewnol (ond yn parhau i fod yn ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol). Mae cytundeb cyfredol darparwyr allanol yn rhoi disgwyliadau penodol iawn o ran hawliau staff (agweddau megis isafswm gwyliau, rheidrwydd i dalu am wisg a chofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a thâl am hyfforddi a theithio). Mae tystiolaeth fod hawliau staff y sector wedi gwella ar ei ganfed ers i ni fabwysiadu'r model newydd.

Mae'r Fframwaith Gomisiynu newydd yn rhoi cyfrifoldeb arnom i :

- Drefnu ein gwasanaethau mewn ffordd syml

- Rhoi mwy o ffocws ar ansawdd nag ar gostau
- Reoli gwasanaethau yn well i sicrhau ein bod yn atal problemau rhag codi neu waethygu
- Gydweithio mwy gyda’r GIG a sefydliadau eraill
- Rhoi mwy o feddwl i beth yn union rydym eisiau ei gyflawni ar gyfer pobl.

Mae ein ymdrechion i ddatblygu’r ffordd rydym yn darparu gofal cartref yn cyd-fynd â’r egwyddorion hyn, a hynny wedi’i gyfleu yn y cytundeb sydd gennym ni a’r Bwrdd Iechyd ar y cyd â’n darparwyr.

**Ydy taliadau ‘amser a hanner’ yn parhau i fodoli ar benwythnosau? Allwch chi roi brasamcan o daliadau arferol/penwythnosau yn ogystal â’u cymharu â thaliadau’r sector breifat?**

Nid yw staff sy’n gweithio i’r Cyngor bellach yn derbyn taliadau uwch am weithio ar benwythnosau. Mae rhai yn credu y gallai newid y polisi hwn gael effaith bositif ar ein gallu i recriwtio ac felly leihau rhestrau aros a chwrdd â’r galw. Fel y nodwyd uchod, mae darparwyr allanol yn gorfod talu isafswm cyflog yr awr i staff o dan eu cytundeb. Gwyddom fod nifer fawr ohonynt yn cynnig tâl ychwanegol i staff am weithio ar wyliau’r banc neu ar benwythnos, ond nid oes gennym dystiolaeth ynglŷn ag effaith hyn ar lwyddiant i recriwtio a chadw staff.

## 5. Ymgynghori

Wrth baratoi’r adroddiad hwn rydym wedi ymgynghori gyda’r timau mewnol sydd ynghlwm â darpariaeth a datblygiad gofal cartref, ac wedi cymryd safbwyntiau ein darparwyr allanol i ystyriaeth.

Elfen yr ydym yn awyddus i’w chryfhau yw’r ffordd yr ydym yn mynd ati i glywed lleisiau pobl sy’n derbyn ein gwasanaeth gofal cartref. Rydym yn ystyried cyflwyno defnydd o holiadur cydnabyddedig PERCCI i gasglu gwybodaeth am effaith ein gwasanaethau, a sefydlu grŵp defnyddwyr a theuluoedd.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

Rhoddwyd ystyriaeth i’r holl nodau llesiant perthnasol o dan y ddeddf hon pan oeddem yn datblygu a chomisiynu ein model gofal cartref newydd. Noder ein bod yn cyd-gomisiynu â Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, sy’n enghraifft o gydweithio er lles y gymuned i geisio sicrhau llesiant cymunedau yn y presennol ac i'r dyfodol.

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a’r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Noder fod asesiadau effaith statudol / priodol wedi'u paratoi wrth gyflwyno achos busnes i'r Cabinet a sicrhau'r hawl i symud ymlaen i gomisiynu'r model gofal cartref dan sylw. Gwnaed hyn ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd a gellid eu hanfon at unrhyw un sy'n dymuno eu gweld.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu |
| **DYDDIAD** | 26.09.2024 |
| **TEITL** | Trafnidiaeth i bobl sy'n byw gyda Dementia i fynychu gofal dydd |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cynllun y Cyngor 2023-28 Gwynedd Ofalgar |
| **AWDUR** | Sian Edith Williams Jones |
| **AELOD CABINET** | Dilwyn Morgan |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Nodir yng Nghynllun y Cyngor o dan Gwynedd Ofalgar bod cefnogi Gofalwyr di-dal a chefnogi llesiant yn flaenoriaeth.

Mae pryder gan rai aelodau nad oes trafnidiaeth ar gael i bobl sy'n byw gyda Dementia fynychu gofal dydd a bod hyn yn arwain at ynysu, diffyg cymdeithasu a diffyg egwyl i ofalwyr di-dâl/teulu.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

- **Effaith peidio cynnig trafnidiaeth ar y nifer sy'n mynychu a'r teuluoedd**
- **A oes lleihad wedi bod yn y nifer o bobl gyda dementia sy'n mynychu gofal dydd oherwydd nad oes ganddynt drafnidiaeth i gyrraedd gofal dydd?**
- **A oes cwynion wedi eu derbyn gan ofalwyr di-dal a beth yw effaith hyn arnynt?**
- **Pa gynlluniau sydd yna mewn lle i daclo'r broblem?**

**Cwestiynau ychwanegol**

- **A yw mynychu gofal dydd yn cael effaith positif ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth?**
- **Beth yw'r data o ran ffigyrau mynychwyr gofal dydd gyda dementia ar gyfer y cyfnod cyn covid, wedi covid a rŵan ers stopio'r drafnidiaeth?**
- **Beth sy'n cael ei gynnig yn lle'r sesiynau gofal dydd i'r sawl sy'n rhy wael i'w mynychu a'r sesiynau bellach yn anaddas ar eu cyfer?**

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

Yn yr adroddiad byddwn yn gosod y cyd destun cyfredol ar y ddarpariaeth gofal dydd sydd ar gael i oedolion gyda dementia yng Ngwynedd a'r trefniadau trafnidiaeth ar ei gyfer. Bydd pwyslais ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r disgwyliad i ni fod yn ystyried adnoddau personol a chryfderau unigolion pan yn asesu a chynllunio

anghenion gofal a chefnogaeth. Yn ogystal a'r cwestiwn am drafnidiaeth, gobeithir bod yr adroddiad yma yn sbarduno gwir ystyriaeth o'r math o ofal dydd sydd ei angen ar unigolion sy'n byw â dementia a'u teuluoedd heddiw ac i'r dyfodol.

Byddwn yn gofyn i'r pwyllgor ystyried ystod eang ac amrywiol o ddarpariaethau dydd a'n bod yn symud i ffwrdd o fodelau gofal dydd traddodiadol, a hynny ar gyfer unigolion gydag anghenion dwys yn ogystal. Rhaid cydnabod hefyd nad yw'r sefyllfa gyfredol gyda darpariaeth ofal dydd yn unigryw i unigolion gyda dementia. Bydd atebion i'r cwestiynau craffu uchod yn cael eu cynnwys yn y mannau perthnasol o'r adroddiad.

### 3. Cefndir / Cyd-destun

Mae dementia yn salwch dinistriol, sy'n fwy na dim ond colli'r cof. Mae'n glefyd dirywiol ar yr ymennydd sy'n cyfyngu ar fywyd ac yn effeithio ar bob rhan o allu corfforol, gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol unigolyn. Mae'n gyflwr cynyddol sy'n gwaethygu dros amser, ac mae'n rhaid i berson sydd â dementia ddibynnu fwyfwy ar ofalwyr wrth i'r cyflwr ddatblygu. Mae disgwyl i'r niferoedd sy'n cael diagnosis o ddementia gynyddu a gwelir yn ddiweddar bod mwy o oedolion ifanc (dan 65 oed) yn derbyn diagnosis o dementia. Mae effaith dementia yn sylweddol ar unigolion, eu teuluoedd a ffrindiau ac yn rhoi pwysau mawr ar wasanaethau statudol Iechyd a Gofal a'r trydydd sector. O'r cyfanswm o 45,000 o bobl yng Nghymru sy'n byw gyda dementia, amcangyfrifir bod tua dwy ran o dair ohonynt yn byw yn y gymuned, ac un rhan o dair yn byw mewn cartrefi gofal breswyl neu nyrsio. Mae rhan helaeth o waith y Timau Adnoddau Cymunedol y Cyngor yn ymwneud â chefnogi unigolion gyda dementia a'i teuluoedd/gofalwyr.

### 4. Cyd-destun Cyfreithiol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw'r fframwaith gyfreithiol i ni adnabod deilliannau personol person ac i asesu ei anghenion gofal a chefnogaeth. Mae dyletswydd ar Wasanaethau Cymdeithasol i ddiwallu yr angen os nad yw'r adnoddau (yn bersonol, yn y gymuned neu gan eraill) ar gael i'r person ddiwallu ei anghenion ei hun.

## *Y ddarpariaeth 'Gofal Dydd' (Traddodiadol) Presennol*

Mae gan y Cyngor 3 darpariaeth gofal dydd i bobl hŷn sy'n byw â dementia, Plas Hedd, Bangor, Llys Cadfan, Tywyn a Plas y Don, Pwllheli. Nodir bod y 3 gwasanaeth yn gysylltiedig gyda, ac yn rhan o ddarpariaeth gofal y cartrefi preswyl.

Yng Nghanolfan dydd Plas Hedd, Bangor, mae'r ddarpariaeth yn llawn ar hyn o bryd. Mae 5 unigolyn yn mynychu fesul diwrnod, gyda gwasanaeth ar gael 2 ddiwrnod yr wythnos gyda 2 aelod staff yn gofalu. Teuluoedd sy'n cludo'r unigolion oherwydd bod anghenion yr unigolion rhy ddwys i ddefnyddio tacsi annibynnol. Cyn cyfnod Covid, roedd Plas Hedd yn gallu derbyn mwy o unigolion (hyd at 12) i mewn oherwydd bod 3 o staff yn goruchwylio, un ohonynt yn Nyrs Iechyd Meddwl Pobl Hŷn, mae Iechyd wedi gorfod tynnu'r aelod staff allan o'r ganolfan oherwydd y galw cynyddol am nyrsys yn y gymuned.

Ym Mhlas Y Don, Pwllheli, a Llys Cadfan, Tywyn, mae 6 unigolyn yn cael tacsi i'w cludo, trefniant eithriad oherwydd nad opsiynau amgen ar eu cyfer, aelodau teulu sy'n cludo eraill. Nid yw staff y canolfannau wedi derbyn cwyn gan y teuluoedd am y diffyg

trafnidiaeth nac ychwaith wedi gweld effaith amlwg yn y niferoedd sy'n mynychu oherwydd materion trafnidiaeth. Mae Plas y Don a Llys Cadfan wedi gweld nifer mynychwyr a ceisiadau am ofal dydd wedi lleihau ond yn teimlo nad trafnidiaeth yw'r rheswm am hyn.

Mae nifer fawr o gartrefi preswyl eraill y Cyngor hefyd yn cynnig gofal dydd i nifer fechan o unigolion yn ddibynnol ar sefyllfa staffio digonol a theuluoedd yn trefnu trafnidiaeth eu hunain. Yn aml iawn hefyd, mae gofalwyr cartref yn cludo unigolion i ofal dydd pan nad oes opsiwn addas arall ar eu cyfer.

Yn gyffredinol ar draws Gwynedd, mae'r galw am gludiant i ofal dydd wedi lleihau ers cyfnod Covid. Mae hyn yn bennaf oherwydd y lleihad mewn darpariaeth gofal dydd 'traddodiadol', gyda chanolfannau Blaenau Ffestiniog a Cricieth heb ail agor ers Covid (nid oedd rhain yn wasanaethau neilltuol i unigolion sy'n byw gyda Dementia).

Nid yw'r timau oedolion wedi derbyn cwyn yn benodol yn ymwneud â diffyg trafnidiaeth i ofal dydd dementia. Daeth un cwyn diweddar i sylw ein Swyddog Gofal Cwsmer ynglŷn â diffyg trafnidiaeth i ofal dydd cyffredinol (nid gofal dydd dementia) achos ble roedd y bws mini methu dod i ddrws y tŷ oherwydd cyflwr gwael a cyfyngedig y ffordd. Oherwydd yr amgylchiadau penodol, cytunodd yr Adran i dalu am dacsi yn yr achos yma ar sail eithriad.

.

**Darpariaeth Dydd Dementia Iechyd BCUHB**

Mae darpariaeth gofal dydd arbenigol i unigolion a dementia ar y cyd a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn bodoli yn ardal Llŷn a De Meirionnydd sydd yn darparu ysbaid i ofalwyr a chefnogaeth glinigol i fonitro cyflwr iechyd yr unigolyn. Yn Hafod Hedd, Ysbyty Bryn Beryl Llun i Gwener 9-5, ar gyfer unigolion gydag anghenion iechyd ynghlwm neu yn ogystal a'r dementia. Mae 33 unigolyn yn mynychu Hafod Hedd ar hyn o bryd, gyda'r niferoedd yn amrywio rhwng 10 i 15 bob dydd. Mae'r nifer o ddyddiau a fynychir yn ddibynnol ar yr angen a'r asesiad risg. O ran trafnidiaeth, mae'r Gwasanaeth Iechyd yn annog pobl i wneud eu trefniadau eu hunain oherwydd bod trafnidiaeth ysbyty yn annibynadwy. Mae'r mwyafrif yn cael eu cludo gan aelodau teulu ac eraill yn defnyddio 'O ddrws i ddrws' neu Cymrod, darparwyr cludiant cymunedol lleol. Mae rhai yn talu'n breifat i ofalwyr eu cludo. Mae'r niferoedd sy'n mynychu Hafod Hedd ar gynnydd ar hyn o bryd, nid yw'r staff yn ymwybodol o unrhyw un nad sy'n mynychu oherwydd diffyg trafnidiaeth a nid ydynt wedi derbyn cwyn am y diffyg trafnidiaeth. Maent yn adrodd bod y niferoedd sy'n mynychu yn uwch nawr nag yr oedd cyn Covid – hyn efallai oherwydd y lleoliad newydd sbon ac yn gallu derbyn mwy o bobl.

Gellir crynhoi'r trefniadau trafnidiaeth i Hafod Hedd fel a ganlyn:

24 - Cludiant gan deulu
4 - O ddrws i ddrws neu Cymrod
3 - Trafnidiaeth Ysbyty
2 - Gweithiwr Cefnogol Dementia Cyngor Gwynedd

**Yn ogystal a'r uchod, credir ei bod yn bwysig amlygu'r mathau o gefnogaeth amgen sydd ar gael yng Ngwynedd i unigolion sy'n byw gyda dementia.**

**Dementia Actif**

Mae tîm Dementia Actif yn cyd-weithio gyda nifer o'r hybiau cymunedol ac yn effeithiol iawn yn denu aelodau newydd ac yn trefnu trafnidiaeth ar eu cyfer am gost rhesymol. Mae gan yr unigolion anghenion a chyflyrau amrywiol, rhai yn byw bywyd unig ac ynysig. Mae pawb yn cael croeso oherwydd bod gweithgareddau corfforol a chymdeithasu yn ffactorau sy'n helpu i leihau'r risg o dementia, ac felly'n gefnogaeth ataliol. Mae Hybiau Cymunedol Dyffryn Ogwen a Dyffryn Nantlle (Yr Orsaf) yn darparu trafnidiaeth i'r dosbarthiadau Dementia Actif ar gyfer aelodau na fyddai'n gallu mynychu fel arall, a'r gost wedi ei osod yn £2 y daith/dydd. Mae bwriad nawr i gydweithio gyda Hwb Cymunedol Henblas, Y Bala, unwaith y byddant wedi sefydlu eu cynllun cludiant cymunedol ac hefyd mae sgyrsiau cychwynnol yn Nhywyn gyda'r hwb newydd o dan ambarél Cymuned Dementia Gyfeillgar. Mae rhai mynychwyr yn talu am dacsi i ddod i'r dosbarthiadau a rhai eraill yn dibynnu ar wirfoddolwyr.

**Gweithwyr Cefnogol Dementia**

Mae'n bwysig iawn i bobl sy'n byw gyda dementia i aros yn eu cartrefi cyhyd a phosib a'u bod yn cael cymorth i barhau yn saff a diogel yn y cartref. Bydd nifer fawr yn ddibynnol ar deulu a ffrindiau i'w cefnogi ac mae angen sicrhau fod y gofalwyr hyn yn cael seibiant rhesymol o'i rôl gofalu er mwyn parhau i allu gofalu a chael bywyd y tu hwnt i ofalu. Mae cyllideb ICF Llywodraeth Cymru wedi ein galluogi i benodi gweithwyr cefnogol Dementia sydd yn rhan o'r Timau Adnodd Cymunedol ac yn cefnogi unigolion sy'n byw â dementia a'i gofalwyr i barhau i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau. Mae gennym 5 o Weithwyr Cefnogol Dementia yn darparu cefnogaeth dydd un i un yng nghartref yr unigolion sydd gan amlaf gyda dementia dwys. Mae nhw hefyd yn cludo unigolion i weithgareddau dydd yn y gymuned pan nad oes cefnogaeth arall ar gael.

**Eryri Cydweithredol**

Mae'r Cyngor yn comisiynu Eryri Cydweithredol i ddarparu cefnogaeth dydd yng nghartrefi unigolion gyda dementia, unigolion gyda dementia dwys gan amlaf ble nad yw'n addas iddynt fynychu gweithgareddau dydd. Dyma wasanaeth cefnogol sy'n rhoi ysbaid i ofalwyr di-dâl sydd â baich gofalu dwys iawn ac sy'n ddibynnol ar dderbyn cefnogaeth arbenigol yn eu cartref eu hunain. Mae Eryri Cydweithredol yn cefnogi yn ardaloedd Caernarfon, Bangor, Porthmadog a Harlech ar hyn o bryd.

**Dyma restr o ddarparwyr Gweithgareddau Dydd a Thrafnidiaeth Gymunedol (Trydydd Sector) Gwynedd**

| Darparwr 3ydd Sector | Gwasanaethau a gynigir |
|---|---|
| Yr Orsaf, Penygroes – Ardal Dyffryn Nantlle | Cerbydau gwyrdd yn cludo pobol i weithgareddau dydd Yr Orsaf |
| Y Dref Werdd- Ardal Blaenau Ffestiniog | Cerbydau gwyrdd yn cludo pobol i weithgareddau dydd y Dref Werdd, awydd i ymestyn y ddarpariaeth ymhellach. |
| Porthi Dre – Ardal Caernarfon | Trefniant gyda'r Orsaf, Penygroes, i gael benthyg cerbyd a gyrrwr i gludo unigolion sydd heb ffordd arall o gyrraedd Porthi Dre |
| Partneriaeth Ogwen – ardal Dyffryn Ogwen | Cerbyd Gwyrdd, cludo unigolion i glybiau cinio ac ar dripiau allan |
| Congl Meinciau, Botwnnog – Ardal Llŷn | Defnyddio gwasanaeth O Ddrws i Ddrws neu Bws Fflecsi |
| Hwb Cymunedol Bala | Wedi cyflwyno cais am grant i brynu cerbyd gwyrdd |
| Ardal Tywyn | Cynlluniau Hwb Cymunedol a Thrafnidiaeth gymunedol ar y gweill |

**Rhwystrau ac Ystyriaethau**

Mae'n hanfodol bod y ddarpariaeth trafnidiaeth yn addas a diogel. O'r enghreifftiau uchod, fe welwch nad yw bws mini neu dacsi arferol yn opsiwn addas bob tro, gyda risgiau o ymddygiad heriol ac enghreifftiau ble nad yw'r gyrwyr wedi bod yn gefnogol a sensitif iawn i sefyllfa fregus unigolion sy'n byw â dementia. Yn ôl profiad y timau gwaith cymdeithasol, mae'n anodd iawn dod o hyd i gwmni tacsi sy'n fodlon gwneud y gwaith yma i'r Cyngor. Os ydynt yn cytuno, yn aml iawn mae'r costau yn uchel ofnadwy. Hefyd nid oes llawer o gerbydau sydd â mynediad i gadair olwyn. Yn amlach na pheidio, aelodau teulu yw'r pobol mwyaf addas i gludo ei hanwyliaid i ofal dydd. Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r adnoddau, cerbydau na'r staff gan y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth warchodol gyda goruchwyliwr.

Mae gennym enghreifftiau positif ble mae Dementia Actif wedi cydweithio gydag 'O Ddrws i Ddrws' yn Llŷn, drwy ddarparu sesiynau 'Ffrindiau Dementia' i'r staff. Roedd gan staff 'O Ddrws i Ddrws' bryderon am gludo pobl â dementia gan eu bod wedi profi sefyllfaoedd heriol iawn yn y gorffennol. Erbyn hyn mae'r staff wedi bod ar hyfforddiant gyda'r Community Transport Association a'r staff yn adrodd bod hyn wedi bod o fudd mawr.

*"MiDAS (Minibus Driver Awareness Training) is a nationally recognised driver training and assessment scheme which focuses on putting the needs of passengers first. MiDAS trained drivers and the community transport providers they drive for hold a common pride in the caring, compassionate and supportive nature of the community transport sector. Central to MiDAS is the understanding that as a sector we remain responsive to the*

*needs of passengers. To do this, it's important to work with organisations that hold expertise and best practice to make sure drivers learn the best skills to support their passengers. The new MiDAS training round will include Dementia Friends information for all trainers and drivers."*

Rhaid hefyd ystyried yr hinsawdd ariannol. Mae cyfraniad yr unigolyn tuag at gost gofal dydd y Cyngor yn isel iawn ar hyn o bryd (£4 y dydd) ac mae wedi ei seilio ar yw gyfrannu at y bwyd yn unig. Nid yw'r Cyngor wedi bod yn codi tâl am y gofal sy'n cael ei ddarparu i unigolion o 10yb-4yp gan 2 aelod o staff gan amlaf. Nid yw hyn wedi bod yn cael ei ystyried yn y Polisi Codi Tâl yn yr un modd â Gofal Cartref ble mae cost ynghlwm â phob awr sy'n cael ei ddarparu. Mae Polisi Codi Tâl y Cyngor yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae'r mater yma yn un o'r ystyriaethau ar gyfer ei addasu ac yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn. Mae'n bwysig nodi bod y Cyngor yn darparu cefnogaeth lles ariannol i unigolion drwy'r Tim Incwm a Lles. Mae swyddogion Incwm a Lles ar gael ymhob ardal i gefnogi unigolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth a'u gofalwyr, i asesu eu gallu i dalu am wasanaethau a'u galluogi i gyflwyno cais budd-daliadau ar gyfer talu am wasanaethau gofal, gan gynnwys gofal dydd a thrafnidiaeth.

**Y Camau nesaf**

Fel y gwelir o'r adroddiad, mae'r trefniadau trafnidiaeth i unigolion fynychu'r gweithgareddau/gwasanaethau uchod yn amrywiol iawn. Mae'n ddibynnol ar adnoddau personol, amgylchiadau ariannol unigolion, argaeledd a pharodrwydd teuluoedd i gefnogi ac argaeledd adnoddau trydydd sector yn ein cymunedau. Mae'n amlygu hefyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod unigolion yn cael mynediad i wasanaethau dydd lleol ond bod ystyriaeth yn cael ei roi gyntaf i argaeledd trafnidiaeth gan deulu neu ffrindiau neu drafnidiaeth lleol addas a fforddiadwy cyn bod disgwyliad ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth.

Cydnabyddir y gellir dadlau nad yw ein safbwynt fel Cyngor ar drafnidiaeth yn ddigon clir a chyson a bod angen ystyried Polisi Trafnidiaeth ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth. Mae adolygiad o drefniadau cludiant yr adrannau Oedolion a Phlant eisoes ar y gweill gan gynnwys y gwaith dechreuol ar baratoi a diweddaru ein polisi ar drafnidiaeth.

Penderfynwyd cynnal yr adolygiad hwn oherwydd anghysondeb ac aneglurder o ran y defnydd a wneir o gludiant, y drefn o ran archebu tacsis/cludiant cyhoeddus a chymunedol a'r rhesymau dros eu harchebu a sut/pwy sy'n talu. Prif nod yr adolygiad yw sicrhau bod system gyson ar gyfer cludiant ar draws Gwynedd o fewn y gwasanaethau cymdeithasol. Bydd cyswllt yn cael ei wneud gyda awdurdodau eraill i adnabod ymarfer da a chyfredol. Bydd y polisi yn cael ei baratoi wrth gymryd ystyriaeth o'r materion isod:-

- Bod trafnidiaeth yn cael ei ddarparu mewn sefyllfaoedd pan nad yw'n bosib i'r unigolyn ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth annibynnol arall
- Bod y cynllun gofal a chefnogaeth yn galluogi'r unigolyn i fod mor annibynnol a phosib ac i wneud y defnydd gorau o'u cryfderau, eu gallu ac adnoddau lleol
- Bod cefnogaeth ar gael i unigolion drefnu trafnidiaeth addas drwy adnoddau lleol a'r trydydd sector

- Bod ystyriaeth i drefniadau trafnidiaeth fforddiadwy a chefnogaeth y Tim Incwm a Lles gyda budd-daliadau i dalu am ofal a thrafnidiaeth
- Bod darpariaeth trafnidiaeth gan y Cyngor ond yn cael ei gynnig ar ôl ystyried pob opsiwn arall. Yn yr amgylchiadau eithriadol bydd cefnogaeth drwy Daliadau Uniongyrchol yn cael ei ystyried.

## 5. Ymgynghori ag eraill ar gyfer yr adroddiad

*Sian Griffiths – Arweinydd Tim Llesiant Gwynedd*
*Geraint Jones – Swyddog Gofal Cwsmer Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant*
*Bethan Williams – Rheolwr Cefnogi Iechyd a Llesiant (Gwytnwch Cymunedol)*
*Mirain Llwyd Roberts – Rheolwr Cefnogi Iechyd a Llesiant a Chydlynydd Gwynedd Oed Gyfeillgar.*
*Manon Elwyn Hughes – Rheolwr Prosiect Datblygu Timau Adnoddau Cymunedol (Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd iechyd)*
*Emma Quaeck – Rheolwr Cefnogi Iechyd a Llesiant/Dementia Actif*
*Idwen Roberts – Rheolwr Gofal Dydd Bangor, Plas Hedd*
*Nia Thomas – Rheolwr Gofal Dydd Plas Y Don, Pwllheli*
*Katey Louise Mcmullen – Rheolwr Llys Cadfan/Gofal Dydd Tywyn*
*Glenys Williams (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) – Canolfan Dydd Hafod Hedd, Bryn Beryl*
*Aelodau Swper Grŵp Dementia Gwynedd – Grŵp Defnyddwyr a Gofalwyr*
*Melanie Sillett - Rheolwr Prosiect Dementia Rhanbarthol/ Regional Dementia Project Manager*

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**A ydych wedi cynnwys trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?**

Mae bwriad cynnal ymgynghoriad pellach ar ddarpariaeth gofal dydd cyffredinol ar sail ardaloedd lleol. Bydd hwn yn cychwyn gyda ardal Cricieth

Os yw aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o unigolion sydd wedi datgan nad ydynt yn gallu mynychu gofal dydd oherwydd trafnidiaeth, byddai'r gwasanaeth yn falch o dderbyn y wybodaeth er cysylltu a hwy.

**A ydych wedi ystyried cydweithio?**

*Mae'r Cyngor eisoes yn cydweithio gyda'r trydydd sector a'r Bwrdd Iechyd ar faterion gofal dydd a datblygiadau yn y Trydydd Sector drwy ein timau adnoddau cymunedol a'n Rheolwyr Cefnogi Iechyd a Llesiant*

**Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?**

*Mae gwerthusiad o’r ddarpariaeth gofal dydd ar y gweill gan yr Adran. Y nôd yw gwella’r ffordd y gellir cefnogi unigolion o fewn eu cymunedau yn hytrach na darparu gofal dydd ‘traddodiadol’. Mae ein ymdrechion cydweithio gyda grwpiau 3ydd sector lleol a rhaglenni megis Dementia Actif eisoes yn arddangos cynnydd ac yn ein rhoi mewn lle cryfach i gefnogi trigolion bregus yn y Sir.*

**Sut ydych wedi ystyried yr hirdymor a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?**

*Mae gwaith casglu data lleol a chenedlaethol yn amlygu rhagamcanion y bydd y boblogaeth hyn (dros 65 ac yn benodol dros 85 oed) yn cynyddu’n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf. Golyga hyn y bydd galw cynyddol a sylweddol am wasanaethau i gefnogi unigolion, teuluoedd a gofalwyr sy’n byw gyda dementia. Mae gwaith o fewn y Cyngor i edrych ar effaith tebygol hyn ar ddarpariaeth gwasanaeth ynghyd a rhaglen waith i gyfarch yr heriau hefyd wedi ei gwblhau. Gobeithir y gellir ei gyhoeddi’n fuan.*

**Er mwyn sicrhau integreiddio, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?**

*Rydym eisoes yn cydweithio’n agos gyda’r Bwrdd Iechyd o ran darparu gwasanaethau i gefnogi unigolion sy’n byw gyda dementia ynghyd a’u gofawyr a’u teuluoedd. Mae eu hadborth wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn. Gellir cadarnhau bod cydweithio agos/integredig rhwng staff iechyd a gofal yn digwydd yn ein Timau Adnoddau Cymunedol*

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a’r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Yn achos siaradwyr Cymraeg sy’n byw gyda dementia, mae derbyn gofal a chymorth yn eu mamiaith neu iaith o’u dewis yn fater o angen clinigol.

Gweledigaeth Cynllun Gweithredu Cymru ar Gyfer Dementia 2018-2022 yw “cenedl sy’n deall dementia ac sy’n cydnabod hawliau pobl â dementia, sy’n eu gwerthfawrogi ac yn eu helpu i fyw mor annibynnol ag y bo modd yn eu cymunedau.” Mae’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ymrwymedig i gyflawni gofynion y cynllun ac yn adrodd ar lwyddiannau a’r rhwystrau i Grŵp Sicrwydd Cyflenwi a Gweithredu ar Ddementia.

Mae dementia yn thema benodol o fewn Y Rhaglen Genedlaethol Heneiddio’n Dda.  Un o nodau’r rhaglen yw “gwneud Cymru’n genedl sy’n cefnogi dementia drwy adeiladu a

hyrwyddo cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia". Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned, mewn Sir sy'n un o'r Siroedd gorau i fyw ynddi. Mae'n flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor i sicrhau fod gennym wasanaethau gofal sy'n helpu i bobl fyw eu bywydau fel y maent yn dymuno.

**8. Atodiadau**

Leaflet DAG 2024
.pdf

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol ar y Weithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfer 2023-24** |
| **PWRPAS** | **Paratoi Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu er mwyn craffu a monitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr** |
| **AWDUR** | **Marian Parry Hughes – Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**<br><br>**Aled Davies – Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant** |
| **AELODAU CABINET** | **Cynghorydd Dilwyn Morgan**<br>**Cynghorydd Elin Walker Jones** |
| **DYDDIAD Y PWYLLGOR CRAFFU** | **26/09/24** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a'r Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 ddaeth i rym ar 1af o Awst, 2014, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu adroddiad blynyddol ar y modd ymchwilir ac ymdrinnir â chwynion o fewn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Caiff yr adroddiad ei gynhyrchu gan Swyddogion Gofal Cwsmer y ddwy Adran, ar ran Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ar niferoedd y cwynion a dderbyniwyd gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ystod y flwyddyn, a'r rhesymau drostynt ynghyd â datrysiadau. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd o ran y cwynion a dderbyniwyd. Ceir hefyd fanylion am y niferoedd o geisiadau mynediad at wybodaeth gwybodaeth a cheisiadau rhyddid gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn.

**2. Cyd-destun**

2.1 Mae'n ofynnol i'r ddwy Adran roi Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion statudol ar waith, yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014. Mae ymrwymiad i lunio Adroddiad Blynyddol ar

weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i Bwyllgor Craffu perthnasol y Cyngor er mwyn iddo fedru craffu a monitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr. Mae'n bwysig bod cofnod yn cael ei gadw o sylwadau a chwynion er mwyn i'r Adran allu dysgu gwersi oddi wrthynt, a hynny fel rhan o'r broses o wella'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'n ymarfer da i rannu'r adroddiad cwynion blynyddol ag aelodau'r Cyngor er mwyn sicrhau tryloywder. Mae ystadegau ar gyfer cwynion o dan Weithdrefn Sylwadau a Chwynion yr Adran yn cael eu hadrodd ar wahân i'r rhai ar gyfer cwynion a dderbyniodd ymateb o dan Bolisi Pryderon a Chwynion corfforaethol y Cyngor. Mae hyn yn galluogi'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Gwaith i graffu'n rheolaidd ar ystadegau am gwynion.

2.2 Mae Swyddog Gofal Cwsmer yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi ei lleoli o dan reolaeth yr Pennaeth Cynorthwyol Diogelu ac Ansawdd yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Lleolwyd Swyddog Gofal Cwsmer yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant o dan reolaeth Pennaeth Cynorthwyol Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yr Adran.

Er i'r Swyddogion gael eu lleoli oddi fewn i'w Adrannau, mae'n bwysig nodi fod y Swyddogion yn annibynnol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014. Mae'r Drefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn benodol yn ymwneud ag unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth gan un o'r ddwy Adran, neu sydd â hawl i gynrychioli'r defnyddiwr gwasanaeth.

Mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer yn gyfrifol am:

- Cydlynu trefniadau'r gwasanaeth er mwyn cydymffurfio â'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion;
- Cofnodi cwynion a sylwadau cadarnhaol a negyddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr;
- Monitro'r ymateb i gwynion o fewn yr amserlenni a bennir yn y rheoliadau ar gyfer ymdrin â chwynion o dan Gam 1 y weithdrefn;
- Cydlynu ymchwiliadau gan ymchwilwyr annibynnol i gwynion ffurfiol o dan Gam 2 y weithdrefn;
- Sicrhau yr anfonir ymateb ysgrifenedig ffurfiol a chopi o adroddiad yr ymchwiliad annibynnol (neu grynodeb o'r canlyniad) at yr achwynydd o fewn 25 diwrnod gwaith o dan Gam 2 y weithdrefn, a hysbysu'r achwynydd os rhagwelir y bydd oedi;
- Cydlynu ymatebion gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i ymholiadau gan Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch cwynion am faterion yn ymwneud â'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant;
- Monitro Cynlluniau Gweithredu i sicrhau y dysgir gwersi o gwynion er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau;
- Datblygu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion mewnol;

- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael er mwyn hwyluso mynediad i'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.
- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i hyrwyddo dealltwriaeth o'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ymysg staff Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.
- Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer ar gyfer Oedolion yn aelod o Banel Mannau Parcio i'r Anabl, sydd yn gyfrifol am gydlynu'r broses o asesu ceisiadau gan y cyhoedd am fannau parcio penodol i drigolion anabl tu allan i'w eiddo.

**3. Hwylustod y Drefn Cwyno**

3.1 Pan mae person yn cysylltu â'r Swyddogion Gofal Cwsmer mae'n ymwneud ag anfodlonrwydd â gwasanaeth yr Adrannau ac mae'r dewis i wneud cwyn yn ddewis olaf gan amlaf ganddynt. Mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer yn canolbwyntio ar sicrhau hwylustod i'r Drefn Gwyno fel bod pobl yn ymwybodol o'u hawl i gael gwrandawiad ac ymchwiliad llawn o'u cwyn.

3.2 I'r diben hwn, caiff gwybodaeth ynglŷn â'r drefn gwyno gryn gyhoeddusrwydd ac mae ar gael mewn amrywiaeth o fformatau e.e. taflenni, ar-lein a fersiwn "hawdd i'w ddarllen". Mae'r holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel bod yr achwynydd yn medru dewis yr iaith sydd orau ganddo ef/ganddi hi. Mae trefniadau amgen megis Braille neu ieithoedd eraill ar gael ar ofyn. Mae eiriolaeth neu gefnogaeth arall ar gael i'r achwynydd yn ei h/iaith ddethol er mwyn cynorthwyo wrth i'r Drefn Gwynion fynd rhagddi. Mae taflenni gwybodaeth yn cael eu diwygio a'u diweddaru'n barhaus.

3.3 Yn unol â threfniadau'r drefn gwynion, mewn rhai achlysuron nid oes modd derbyn cwyn ar y pryd hynny. Os oes ymchwiliad Heddlu cyfredol, ymchwiliad o dan y drefn Diogelu, ymchwiliad Amddiffyn Plant cyfredol, neu mae'r mater yn derbyn sylw gerbron y Llys, ni allwn dderbyn y gwyn. Gall derbyn cwyn amharu ar unrhyw ymchwiliad cyfredol sydd yn cymryd lle ar y pryd. Mi fyddwn mewn achos fel hyn yn cynghori'r achwynydd o'r rhesymau, unwaith mae'r ymchwiliad wedi dod i ben yna mi allwn ddechrau'r broses gwynion.

**4. Materion a gofnodwyd fel Ymholiadau**

4.1 Y nod yw ymateb i bob cwyn gyda thegwch, didueddrwydd a pharch fel bod yr unigolyn yn hyderus fod ei gwyn yn derbyn ymdriniaeth broffesiynol a hynny mewn modd positif yn hytrach na negyddol. Yn aml, pan mae'r unigolyn yn dewis peidio â dilyn y Drefn Gwyno, fe ymdrinnir â'r mater fel ymholiad neu gŵyn anffurfiol. Enghraifft arall o hyn fyddai llythyr gan Aelod Seneddol neu Gynghorydd lleol sy'n dymuno mynegi anfodlonrwydd neu sydd angen ateb i gwestiwn penodol.


4.2 Trwy ymateb yn bositif yn ystod y camau cynnar hyn, gall rhai materion gael eu datrys yn effeithiol heb fod angen dilyn y Drefn Gwyno am fod dewis i ymdrin ag unrhyw gamddealltwriaeth neu ymateb i ymholiadau. Heb os, dyma'r canlyniad gorau i bawb. Gweler Tabl 1(a) ac 1(b) isod am ddadansoddiad o darddiad pob ymholiad a'r uned/gwasanaeth sy'n gyfrifol am ymateb i'r ymholiad arbennig hwnnw.

**TABL 1(a) - Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol a dderbyniwyd gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

| | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| *Cyfreithwyr* | 1 | 2 |
| *Ymholiad Ombwdsmon* | 2 | 3 |
| *Aelodau lleol* | 1 | |
| *Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad* | 7 | 5 |
| *Defnyddwyr Gwasanaeth* | | 1 |
| *Perthynas* | 18 | 15 |
| *Y Cyhoedd* | | 1 |
| *Gofalwr Maeth* | | 1 |
| *Asiant Arall e.e. gwasanaeth eiriolwr* | | 2 |
| **Cyfanswm** | 29 | 30 |

**TABL 1(b) - Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol a dderbyniwyd gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

| | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| *Cyfreithwyr* | | 1 |
| *Ymholiad Ombwdsmon* | | |
| *Aelodau lleol* | 4 | 3 |
| *Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad* | 25 | 16 |
| *Defnyddwyr Gwasanaeth* | 2 | |
| *Perthynas a/neu Ofalwr* | 9 | 14 |
| *Y Cyhoedd* | 9 | 10 |
| *Materion Mannau Parcio Anabl* | | 2 |
| *Asiantaeth arall* | | 1 |
| *Siroedd Eraill* | | 1 |
| *Yr Heddlu* | | |
| *Comisiynydd Pobl Hyn* | | |
| *Cwmnïau Darparu Gofal Allanol* | 1 | 1 |
| *Staff Cyngor Gwynedd (Adran arall)* | 1 | |
| *Staff Bwrdd Iechyd* | 1 | |
| **Cyfanswm** | 52 | 49 |




## 5. Cam 1 - Trefn Gwyno Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol – Datrysiad Lleol

5.1 Gwneir pob ymdrech i ddatrys y gŵyn fel bod yr achwynydd a'r Adran yn fodlon. Yn amlwg, datrysiad lleol a buan yw'r canlyniad gorau i bawb a gellir cyflawni hyn trwy fuddsoddi amser ac ymdrech yn gynnar. Os yw'r achwynydd, fodd bynnag, yn penderfynu gwneud cwyn ffurfiol o dan Cam 1 o’r Trefn Gwynion, y drefn arferol yw cysylltu dros y ffôn, trwy e-bostio, neu wyneb yn wyneb â'r achwynwyr neu gynrychiolydd er mwyn ceisio datrys y mater. Dros y blynyddoedd, mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer wedi llwyddo i sefydlu cysylltiadau gweithio clos gyda'r timau, rheolwyr a'r adain gyfreithiol fel modd o drafod a datrys materion a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y nifer fechan o gwynion sy'n cyrraedd Cam 2 yn y Drefn Cwynion.

5.2 Weithiau, mae modd datrys pryder erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol, ac yn yr achosion hynny, nid oes angen eu cofnodi fel cwyn ffurfiol o dan Gam 1 o’r Drefn Cwynion. Yn hytrach, byddant yn cael eu cofnodi fel Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol. Yn ogystal, ar rhai achlysuron bydd yr achwynydd yn datgan nad ydynt yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol o dan Gam 1 na Cham 2 o’r Drefn Cwynion.

Ar adegau eraill, mae’r pryderon a dderbynnir yn ymwneud â materion hanesyddol ac, o’r herwydd, nid ydynt yn gymwys ar gyfer ymchwiliad o dan y Drefn Cwynion, er y bydd rhyw fath o ymateb yn cael ei roi pan yn briodol. Yn achos rhai pryderon, nid yw’n bosib ymateb iddynt o dan y Drefn Cwynion pe byddai gwneud hynny’n niweidio achosion cyfreithiol neu ymchwiliadau amddiffyn oedolion sy’n mynd rhagddynt. Hysbysir yr

achwynydd fod hawl ganddynt i ailgyflwyno'r cwyn ar ôl i'r achos cyfredol ddod i ben os ydynt yn dymuno.


5.3 Ymdriniwyd a chwynion ffurfiol o dan drefniadau cwynion statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn dilyn derbyn y gwyn mae yn cael ei anfon ymlaen i sylw'r Rheolwr Tim a'r Pennaeth Cynorthwyol perthnasol. Mi fyddai'r Rheolwr Tim neu'r Pennaeth Cynorthwyol perthnasol yn cysylltu gyda'r achwynydd dros y ffon i drafod eu cwyn a cheisio dod i ddatrysiad. Yn dilyn y sgwrs hon mae'r Pennaeth Cynorthwyol yn anfon llythyr yn cadarnhau'r sgwrs ymlaen at yr achwynydd. Os nad yw'r achwynydd eisiau sgwrs ffôn yna mae posib anfon ymateb ysgrifenedig yn unig. Yn unol â'r canllawiau mae gan yr Adran 10 diwrnod gwaith i gysylltu gyda'r achwynydd i drafod eu cwyn, ac yna 5 diwrnod gwaith i gadarnhau'r sgwrs drwy lythyr.


5.4 Os yw'r achwynydd yn anfodlon gyda'r ymateb o dan Gam 1 o'r broses gwynion yna mae posib iddynt ofyn i'r mater gael ei uchafu i Gam 2 o'r trefniadau Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn unol â'r canllawiau mae gan yr Adran perthnasol 25 diwrnod gwaith i gwblhau ymchwiliad Cam 2. Mewn achosion eithriadol mae posib ehangu'r amserlen os oes angen. Mae'n bwysig hefyd i nodi fod y Drefn Cwynion yn caniatáu i achwynydd ofyn i'r Adran perthnasol uwchraddio eu cwyn yn syth i Gam 2 o'r Trefn Cwynion a dewis peidio derbyn ymateb ffurfiol o dan Cam 1.

5.5 Mae **Tabl 2** isod yn dangos y nifer o gwynion ffurfiol a dderbyniwyd gan y ddwy Adran rhwng 01/04/23 a 31/03/24, gyda ffigyrau y blwyddyn canlynol wedi eu cynnwys er mwyn cymhariaeth.

Fe weler enghreifftiau o'r cwynion a dderbyniwyd gan y ddwy Adran yn **Atodiad 1(a) ac 1(b).**

| **TABL 2 Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol** | | |
|---|---|---|
| ***ADRAN PLANT A THEULUOEDD*** | ***2022/23*** | ***2023/24*** |
| *Cam 1* | 16 | 13 |
| *Cam 2* | 1 | 4 |
| *Ombwdsmon* | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **17** | **17** |
| | | |
| ***ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT*** | ***2022/23*** | ***2023/24*** |
| *Cam 1* | **22** | **22** |
| *Cam 2* | **2** | **2** |
| *Trefn Gwyno Corfforaethol* | **0** | **2** |
| *Ombwdsmon* | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **24** | **26** |


Nifer o Gwynion Cam 1 mesul Adran - 2022/23 a 2023/24
25
20
15
10
5
0
Plant a Chefnogi Teuluoedd
Oedolion, Iechyd a Llesiant
2022-23
2023-24


Nifer o Gwynion Cam 2 mesul Adran - 2022/23 a 2023/24
4.5
4
3.5
3
2.5
2
1.5
1
0.5
0
Plant a Chefnogi Teuluoedd
Oedolion, Iechyd a Llesiant
2022-23
2023-24

## 6. Cam 2 - Trefn Gwyno Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol - Ymchwiliad Ffurfiol

6.1 Pe byddai achwynydd eisiau uchafu eu cwyn i Gam 2, byddai'n rhaid iddynt ddarparu cofnod llawn o'u cwyn ynghyd ag unrhyw ddeilliannau cyraeddadwy; dyma fydd yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer beth rydym yn ei alw'n Ymchwiliad Cam 2. Ar gyfer y ddwy Adran, mae'r ymchwiliad yn cael ei gynnal gan berson annibynnol i'r Cyngor sydd yn cael eu hadnabod fel Ymchwilydd Annibynnol. Yn ogystal, mewn achos o gwyn yn ymwneud a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, mae angen apwyntio Person Annibynnol. Eu rôl ydy cyfarfod gyda'r achwynydd, cyfweld staff perthnasol a darllen y ffeil gofal cymdeithasol. Yn dilyn hyn maent yn creu adroddiad o'u darganfyddiadau ynghyd â unrhyw argymhellion i'r Adrannau perthnasol. Bydd yr Adrannau yn paratoi ymateb i'r argymhellion hyn i'w rannu gyda'r achwynydd.

Mae'r ddwy Adran yn gyfrifol am ariannu ymchwiliadau ei hunain trwy gomisiynu ymchwilydd annibynnol, a'r person annibynnol pan yn berthnasol, fel unigolion hunangyflogedig. Mae costau ymchwiliad yn amrywio yn nol cymhlethdod y mater a'r amser sydd ei angen i gasglu'r dystiolaeth i greu'r adroddiad.

Os bydd yr achwynydd yn parhau i fod yn anhapus ar ôl dilyn y broses Gam 2, yna mae modd iddynt ofyn i'r Ombwdsmon ymchwilio ymhellach.

Trwy ddilyn yr egwyddor o ganolbwyntio ar ddatrysiad buan a lleol yn llwyddiannus, ac ymdrin â materion yn gyflym ac effeithiol, mae'r angen i symud cwynion ymlaen i Gam 2, yn anghyffredin yng Ngwynedd. Deallir fod Gwynedd yn ennill y blaen ar hyn ledled gogledd Cymru. Mae'n dystiolaeth bendant o ymroddiad y Swyddogion Gofal Cwsmer, trwy dderbyn cydweithrediad parod y staff perthnasol ymhob achos unigol, i ddatrys pob cwyn mewn modd effeithiol ac amserol.

6.2 Yn ystod 2023/24, derbyniwyd yr Adran Plant a Theuluoedd bedwar cais i uchafu cwyn i Gam 2 o'r Drefn Gwynion Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Bu i'r 4 cwyn gael ei uchafu yn syth i Gam 2 yn dilyn cais uniongyrchol yr achwynwyr yn unol â'r canllawiau cwynion gwasanaethau cymdeithasol. Felly nid oedd Cam 1 wedi cymryd lle yn yr achosion hyn. Mae hyn yn dueddiad anarferol. O ystyried amgylchiadau'r 4 achos mae y rhesymau dros hyn yn ddealladwy. Ceir ddadansoddiad o'r 4 Ymchwiliad Cam 2 yn **Atodiad 1(a)**.

Symudodd dau gwyn i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ymlaen o Gam 1 i Gam 2 yn ystod 2023/24. Bu i'r 2 gwyn yma gael eu uchafu i Gam 2 o'r broses cwynion yn dilyn cais ac yr achwynwyr ar ôl iddynt dderbyn ymateb ffurfiol o dan Cam 1. Gweler **Atodiad 1(b)** am fanylion pellach.

## 7. Ymchwiliadau i gwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus

7.1 Os nad yw cwyn yn cael ei datrys ar ddiwedd ymchwiliad o dan Gam 2 o'r Drefn Cwynion, mae gan yr achwynydd hawl i gyfeirio'r achos i Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus dros Gymru, neu i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg neu'r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn dibynnu ar natur y gŵyn.

7.2 Mae gan achwynydd yr hawl i gysylltu gyda'r Ombwdsmon ar unrhyw bwynt, ond yn arferol mae'r Ombwdsmon yn disgwyl i'r achwynydd fynd drwy'r broses gwynion yn ei gyfanrwydd cyn y byddent yn edrych ar y mater. Felly mi fyddai'r Ombwdsmon yn cyfeirio'r achwynydd yn ôl i'r Adran i geisio datrys y gwyn yn lleol.

7.3 Mae pob mater hanesyddol a oedd yn agored o dan yr Ombwdsmon bellach wedi ei ddatrys ac wedi ei gau i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Ni dderbyniwyd unrhyw ymchwiliad newydd gan swyddfa'r Ombwdsman yn 2023/24 gan yr un o'r ddwy Adran yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

## 8. Cwynion am wasanaethau a ddarparwyd ar y cyd efo'r Bwrdd Iechyd

8.1 Mae protocol cwynion ar y cyd yn bodoli ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Ni chyflwynwyd unrhyw ymatebion ar y cyd i gwynion o dan y protocol hwn yn ystod 2023/24.

## 9. Ymlyniad at Amserlen Ymateb y Drefn Gwyno Statudol

9.1 Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth ar y modd y mae'n archwilio ac ymdrin â chwynion o fewn yr amserlen a nodwyd yn y Canllawiau a'r Rheoliadau. Unwaith y byddwn wedi derbyn cwyn, bydd y rheolwr perthnasol neu uwch ymarferydd yn cynnig cysylltu gyda'r achwynydd i gynnig cyfarfod/galwad ffôn o fewn 10 diwrnod gwaith er mwyn trafod y cwyn ac i geisio ei ddatrys. Byddwn wedyn yn ysgrifennu at yr achwynydd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r drafodaeth i gadarnhau telerau datrysiad y cwyn.


9.2 Llwyddodd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i ymateb i 82% o gwynion Cam 1 o fewn yr amserlen yma yn ystod 2023/24. Llwyddodd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i ymateb i 92% o gwynion o fewn yr un amserlen yn ystod 2023/24.

9.3 Mae'r rhesymau dros unrhyw ymatebion hwyr yn bennaf yn gysylltiedig â chymhlethdod y cwyn dan sylw, a'r gwaith ymchwil sydd angen ei wneud i allu darparu ymateb llawn. Mae absenoldebau oherwydd salwch, gwyliau blynyddol, ayyb, y Swyddog Gofal Cwsmer a'r staff sydd yn gysylltiedig â'r cwyn hefyd yn cael effaith arwyddocaol ar allu/methu cadw at yr amserlen ymateb.


Mae'r amserlen ar gyfer darparu ymateb ysgrifenedig, sy'n cadarnhau deilliant y drafodaeth, yn dynn iawn, sef 5 diwrnod gwaith. Serch hynny mae'r rhan fwyaf o achwynwyr yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen neu wedi cytuno i ymestyn yr amserlen.

| **Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd - Perfformiad Ymateb 2023/24** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam 1** (cyfanswm – 13) | | | | | | |
| *Cwynion a dderbyniwyd cyn pen 12 mis i'r digwyddiad* | *Cwynion a dderbyniwyd 12 mis ar ôl y digwyddiad* | *Wedi eu cydnabod o fewn 2 ddiwrnod* | *Trafodaeth i gael ei ddatrys cyn pen 10 diwrnod* | *Penderfyniad wedi ei gyhoeddi cyn pen 5 diwrnod* | *Amser ymateb wedi'i ymestyn* | *Cyfartaledd dyddiau wedi eu hymestyn* |
| 13 | 0 | 13 | 12 | 12 | 1 | 5 |

| **Cam 2** (cyfanswm – 4) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Nifer a gydnabuwyd mewn 5 diwrnod*** | *Nifer o ymatebion a dderbyniwyd mewn 25 diwrnod gwaith* | *Nifer wedi'u gohirio dan amgylchiadau eithriadol* | | *Nifer a gyflawnwyd mewn 6 mis* |
| 4 | 3 | 1 (5 diwrnod ychwanegol) | | 1 |



| **Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol – Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - Perfformiad Ymateb 2023/24** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam 1** (cyfanswm – 22) | | | | | | |
| *Cwynion a dderbyniwyd cyn pen 12 mis i'r digwyddiad* | *Cwynion a dderbyniwyd 12 mis ar ôl y digwyddiad* | *Wedi eu cydnabod o fewn 2 ddiwrnod* | *Trafodaeth i gael ei ddatrys cyn pen 10 diwrnod* | *Penderfyniad wedi ei gyhoeddi cyn pen 5 diwrnod* | *Amser ymateb wedi'i ymestyn* | *Cyfartaledd dyddiau wedi eu hymestyn* |
| 22 | 0 | 22 | 19 | 18 | 4 | 10 |
| **Cam 2** (cyfanswm – 2) | | | | | | |
| ***Nifer a gydnabuwyd mewn 5 diwrnod*** | *Nifer o ymatebion a dderbyniwyd mewn 25 diwrnod gwaith* | *Nifer wedi'u gohirio dan amgylchiadau eithriadol* | | | | *Nifer a gyflawnwyd mewn 6 mis* |
| 2 | | 2 | | | | 2 |



## 10. Trefn Gwyno Corfforaethol Cyngor Gwynedd

10.1 Ymdrinnir â rhai materion sydd y tu hwnt i orchwyl Trefn Gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Bolisi Cwynion Corfforaethol Gwynedd. Mae cwynion sydd yn cael eu trafod o dan y Drefn Cwyno Gorfforaethol yn bennaf yn ymwneud a materion sydd ddim yn gysylltiedig yn uniongyrchol gyda'r gwasanaethau gofal mae'r Adrannau yn eu cynnig o dan y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

10.2 Derbyniwyd dau gwyn eleni gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a gafodd sylw o dan Drefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor. Mae mwy o wybodaeth am y cwynion yma ar gael yn **Atodiad 2**.

## 11. Dysgu Gwersi ac Adnabod Tueddiadau

### Dysgu Gwersi

11.1 Cyflwynir adroddiadau chwarterol i gyflwyno'r modd yr ymdrinnir â chwynion i Dîmau Rheoli'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae hwn yn gyfle i'r Penaethiaid Cynorthwyol i ddadansoddi pob cwyn ac i drafod a dysgu er mwyn wella'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i Ddefnyddwyr Gwasanaeth.

11.2 Mae'r Tîmau Rheoli'n cynnwys y gwersi a ddysgwyd yn eu cynlluniau gwaith diwygiedig ac fe gaiff unrhyw anghenion hyfforddiant eu hadnabod. Mae'r log gwersi i'w ddysgu cyfredol yn cael ei weinyddu gan y Swyddogion Gofal Cwsmer. Mae'r log yn cael ei ddosbarthu'n rheolaidd ymysg y Penaethiaid Cynorthwyol er mwyn eu hysbysu o'r gwersi sydd wedi cael eu hadnabod. Bydd y log yn cael ei ddiweddaru gydag unrhyw wybodaeth am weithredoedd a wnaed yn gysylltiedig â'r gwersi i'w dysgu. Mae gobaith bydd hyn yn fodd mwy effeithiol o adnabod gwersi a sicrhau fod gwelliannau yn cael eu gweithredu.

### Tueddiadau Cwynion – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

11.3 Mae'r Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd yn gweithio yn ddyddiol gydag amrediad eang o deuluoedd gwahanol. Mae rhai teuluoedd yn dod i sylw'r Adran drwy ofyn yn uniongyrchol am gymorth, er enghraifft, os oes anabledd gan eu plentyn. Mae'r mwyafrif o deuluoedd yn dod i sylw'r Adran oherwydd pryderon dros les a diogelwch plentyn neu berson ifanc.

11.4 Oherwydd natur gwaith yr Adran, ac yn bennaf Gweithwyr Cymdeithasol, yn anffodus mae tensiwn neu wrthdaro gyda theuluoedd yn anochel ar adegau. Mae rhaid i Weithwyr Cymdeithasol wneud penderfyniadau anodd iawn, ac nid yw teuluoedd yn hapus bob amser. Mae'r Adran yn deall ac yn derbyn y gall teuluoedd fod yn anfodlon sydd yn arwain atynt i wneud cwyn ffurfiol yn erbyn yr Adran.

11.5 Mae'n deg i nodi ei bod yn anodd gweld a oes yno dueddiadau pendant neu themâu clir yn y cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2023/24, gan fod pob

cwyn yn dueddol o fod yn unigryw i bob achos. Yn unol â'r Drefn Gwynion, bydd y Rheolwr Tîm neu'r Pennaeth Cynorthwyol yn trafod y gŵyn gyda'r achwynydd. Drwy gynnal trafodaeth, mae'r Rheolwr Tîm yn gallu ymateb i faterion yn uniongyrchol ac mae'r mwyafrif o achosion yn cael eu datrys dros y ffôn; mae'n glir fod y ffordd yma o ddelio â chwynion yn gweithio. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r gŵyn yn deillio o gamddealltwriaeth a cham-gyfathrebu. Unwaith caiff y materion eu hesbonio'n llawn, rhan fwyaf o'r amser, bydd yr achwynydd yn hapus.

11.6 Mae'n bwysig iawn nodi hefyd, ar sawl achlysur pan fydd achwynwyr yn cysylltu gyda'r Swyddog Gofal Cwsmer yn gyntaf maent o dan deimlad – boed hynny yn flin neu'n ofidus am benderfyniad neu gamddealltwriaeth. Yn y mwyafrif o achosion, bydd yr achwynydd yn fodlon wedi iddynt gael y cyfle i drafod eu pryder gyda'r Swyddog Gofal Cwsmer yn gyntaf ac yna gyda'r Rheolwr Tîm perthnasol, a byddent yn hapus gyda chanlyniad y trafodaethau hyn.

**Achwynwyr Blinderus / Unigolion Anodd**

11.7 Rydym yn gweithio mewn maes arbennig, gyda'r angen i ymateb i achosion bregus er mwyn sicrhau llesiant plant a phobl ifanc Gwynedd. Mae hyn yn gallu arwain at wrthdaro gyda teuluoedd; rhwng yr angen i ddiogelu plentyn a hynny yn groes i ddymuniadau eu rhieni. Mae hyn yn golygu felly ein bod yn dod ar draws rhai unigolion anodd a pheryglus ar adegau.

Y tuedd mwyaf yn 2023/24 ac sydd i weld yn parhau i mewn i 2024/25 ydi unigolion y gellir eu disgrifio fel rhai anodd neu fel achwynwyr blinderus. Mae achwynwyr anodd yn unigolion lle mae ymdrech i ymateb i'w cwyn ond eu bod yn parhau yn anfodlon ac yn aml yn ymddwyn mewn ffordd gynyddol ymosodol neu fygythiol. Er cyflwyno esboniadau trwy broses Cam 1 neu weithiau ganlyniadau ymchwiliadau annibynnol Cam 2 maent yn parhau'n anfodlon ac nid oes modd eu darbwyllo na'u bodloni. Maent yn mynd yn gynyddol rhwystredig ac mae yn heriol ceisio cadw eu sylwadau'n gyfrinachol. Er enghraifft, achwynwyr sydd yn dewis rhannu gwybodaeth sensitif yn gyhoeddus am eu hamgylchiadau gan wneud ensyniadau am lygredd sefydliadol ac yn bygwth aelodau staff unigol. Mae polisïau corfforaethol ar gyfer ymdrin ac achwynyddion blinderus. Mae hyn yn ein galluogi i reoli sut rydym yn ymateb iddynt. Mae y trothwy ar gyfer hyn yn uchel ac mae staff yn gallu profi cyfnodau hir o gyswllt anodd ac yn wynebu bygythiadau cyn gallu rhoi hyn ar waith. Golygai hyn nid yn unig delio gyda chyfathrebiad parhaus gan unigolion am faterion ond bod yr unigolion rhain ar adegau yn fygythiol i'r staff sydd yn ceisio cynnal eu dyletswyddau statudol. Ar sawl achlysur mae'r angen i uchafu materion i sylw Iechyd a Diogelwch wedi codi, ac mae'r angen i ysgrifennu llythyrau rhybudd at yr unigolion hynny i esbonio nad yw ymddygiad o'r fath yn cael ei dderbyn gan y Cyngor. Mae'r balans o sicrhau hawl yr unigolyn i gwyno a derbyn sylw llawn yn unol â'r trefniadau cwynion a sicrhau diogelwch staff yn anodd iawn ar brydau. Hefyd, wrth ddelio gydag unigolion anodd fel hyn, mae angen sicrhau nad yw'r broses gwynion yn amharu ar allu'r Gwasanaeth i ddiogelu'r plentyn/person ifanc.

Mae’n bwysig nodi hefyd, fel Adran rydym yn croesawu cwynion mae yn ffordd o ddeall beth sydd yn digwydd o fewn ein hadran a dysgu a datblygu yn unol â’r angen. Mae’r unigolion sydd yn cael eu hadnabod fel achwynwyr blinderus yn defnyddio’r broses gwynion er mwyn ceisio rhoi pwysau ar staff i newid penderfyniadau, mewn rhai adegau maent yn defnyddio’r broses i gael eu ffordd eu hunain er nad dyma’r weithred gorau er lles y plant a phobl ifanc mewn cwestiwn. Yn amlwg nid dyma bwrpas y drefn gwynion, mae’r broses yma i roi llais i unigolion sydd yn teimlo eu bod wedi eu methu gan yr Adran, ac nid i roi pwysau a bygwth staff y Cyngor.

**Tueddiadau Cwynion ac Ymholiadau - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

11.10 Mae’r Swyddog Gofal Cwsmer yn rhan o Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd (Oedolion) hefo perthynas agos a Swyddogion Monitro Gofal a’r Swyddogion Diogelu. Mae hyn yn hanfodol er mwyn rhannu gwybodaeth er mwyn adnabod achosion o Ddiogelu. Mae rhannu gwybodaeth am unrhyw gwynion a dderbyniwyd am ofal unigolion mewn cartrefi preswyl yn ddefnyddiol er mwyn adnabod problemau gofal ehangach yn y sefydliadau hynny fydd angen ymchwil pellach gan y Swyddogion Monitro.

11.11 Derbyniwyd amrywiaeth o gwynion ac ymholiadau ar themâu gwahanol yn ystod y flwyddyn ac ni ddaeth unrhyw thema penodol i’r amlwg.

Fe fu gostyngiad sylweddol yn nifer o gwynion/ymholiadau a dderbyniwyd ar y thema fwyaf amlwg a ddaeth i’n sylw yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, sef cwynion ac ymholiadau am effaith y trafferthion rydym wedi ei gael fel Adran i ddarparu oriau gofal cartref digonol pan fo’r angen yn codi. Derbyniwyd dau gwyn ar y thema yma eleni.

Ni adnabuwyd unrhyw dueddiadau eraill penodol ymysg yr amrywiaeth eang o faterion a dderbyniwyd yn ystod blwyddyn 2023/24.

## 12. Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Staff o’r Drefn Cwynion

12.1 Rhan bwysig o ddyletswydd Gofal Cwsmer yw darparu hyfforddiant i staff o ran y Drefn Gwyno fel bod staff yn llwyr ymwybodol o'r drefn ac yn hyderus ynglŷn â'u rôl nhw ynddo. Mae’r Swyddogion Gofal Cwsmer bob amser ar gael i drafod unrhyw achosion penodol gydag aelodau o staff yr Adrannau ac i gynnig cyngor ar y ffordd orau i ymdrin ac ymholiadau neu gwynion yn erbyn yr Adran. Mae sesiwn e-ddysgu ar gyfer holl staff yn ddwy Adran wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod staff yn llawn ymwybodol o’r drefn gwynion a’r disgwyliadau ar staff yn ystod y broses. Mi fyddwn yn monitro’r niferoedd sydd yn ymgymryd â’r hyfforddiant a thargedu'r aelodau staff sydd heb ei gwblhau.

## 13. Dyletswyddau Eraill

13.1 Mae Swyddog Gofal Cwsmer Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn aelod o Banel Mannau Parcio i’r Anabl, sydd yn gyfrifol am gydlynu’r broses o dderbyn ac asesu ceisiadau gan y cyhoedd am fannau parcio penodol i’r anabl tu allan i’w eiddo. Cynhelir cyfarfod Panel bob tri mis. Mae’r Swyddog yn gyfrifol am sicrhau fod y ffurflenni cais yn gyfredol a chywir, ac yn gyfrifol am dderbyn ymholiadau dros y ffon, trwy lythyr ac e-bost. Mae’r Swyddog Gofal Cwsmer yn gyfrifol am yr holl broses o gofnodi derbyn ceisiadau a’u canlyniadau, cydlynu’r cyfarfodydd Panel, a chyfathrebu canlyniadau ceisiadau trwy lythyr ar ôl bob cyfarfod Panel.

13.2 Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer Plant a Chefnogi Teuluoedd hefyd yn ymdrin â gyda cheisiadau mynediad at wybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 / Deddf Diogelu Data 2018. Cyflwynwyd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 ar 25 Mai 2018, ac o ganlyniad bu rhai newidiadau yn y drefn a ymdrinnir â cheisiadau mynediad at wybodaeth. Mae gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Swyddog Gweinyddol a Gwybodaeth sydd yn gyfrifol am dderbyn ac ymateb i’r ceisiadau yma.


13.3 Caiff y ceisiadau mynediad at wybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998 / Deddf Diogelu Data 2018 eu gwneud gan unigolion, yr Heddlu, Cyfreithwyr, y Bwrdd Iechyd a hefyd Awdurdodau Lleol eraill. Yn unol â'r Ddeddf, mae amserlenni penodol i lynu atynt, ac mae’r amserlen ymateb wedi mynd yn llawer mwy heriol ers cyflwyniad y Ddeddf newydd.

13.4 Mae penderfynu pa wybodaeth sy'n briodol i gael ei ryddhau yn waith sy'n gofyn am fedrusrwydd a gall fod yn her emosiynol ar brydiau. Mae’r Swyddogion sydd yn ymdrin â’r ceisiadau am wybodaeth yn treulio oriau maith ar rai o'r ceisiadau mwy cymhleth y mae’r Adrannau yn eu derbyn. Mae hyn yn golygu bod swmp sylweddol o oriau yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y ceisiadau am wybodaeth yn cael eu hateb ymhen yr amser penodedig.


13.5 Mae hefyd yn ddyletswydd ar Swyddog Gofal Cwsmer Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i gydlynu ymatebion i geisiadau rhyddid gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Freedom of Information Act 2000). Mae'r niferoedd o geisiadau o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998 wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn gweld cynnydd yn y ceisiadau gan yr Heddlu, Asiantaethau eraill a 'subject access requests' nid yw'r rheswm yn glir dros y cynnydd hwn.

Mae'r niferoedd o geisiadau gwybodaeth a dderbyniwyd gan y ddwy Adran i'w gweld yn **Tabl 5(a) a 5(b)** isod

| **TABL 5(a) - Ceisiadau am wybodaeth - Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | |
|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/24 |
| Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 | **75** | **88** |
| Ceisiadau Deddf Diogelu Data 1998 / Deddf Diogelu Data 2018 | **202** | **228** |
| | | |
| Cyfanswm | **236** | **316** |



| TABL 5(b) – Ceisiadau am wybodaeth - Oedolion, Iechyd a Llesiant | | |
|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/24 |
| Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 | **64** | **36** |
| Ceisiadau Deddf Diogelu Data 1998 / Deddf Diogelu Data 2018 | **16** | **4** |
| | | |
| Cyfanswm | **80** | **40** |



## 14. Mynegi Diolch

14.1 Yn ogystal ag ymateb i bryderon, cwynion a sylwadau eraill gan ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd ac aelodau o’r cyhoedd, mae’n hynod bwysig hefyd i gydnabod a chofnodi'r diolchiadau a gawn gan ein defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd, aelodau o’r cyhoedd a gan staff o asiantaethau eraill.

Yn ychwanegol i’r diolchiadau a’r canmoliaethau a gofnodwyd gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar sustem cofnodi RESPOND, rydym yn ymwybodol fod nifer fawr o ddiolchiadau, anrhegion, ac yn y blaen, wedi cael eu cyflwyno i staff cartrefi preswyl y Cyngor. Daw'r rhain yn bennaf gan deuluoedd defnyddwyr gwasanaeth roedd eisiau dangos eu gwerthfawrogiad i staff am ofalu mor ofalus am eu perthnasau.

Mae enghreifftiau o’r canmoliaethau a diolchiadau yma i’w gweld yn **Atodiad 3**.

| **NIFER Y DIOLCHIADAU YN YSTOD 2023-2024 – OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Oedolion (yn cynnwys Timau Ardal, Tîm Anabledd Dysgu, Tîm Iechyd Meddwl a Therapi Galwedigaethol) | Darparwr Mewnol (Gofal cartref a phreswyl) | Busnes a Chyllid | Teleofal | Gofal Cwsmer a Diogelu | **CYFANSWM** |
| **39** | **73** | | | **2** | **114** |

| **NIFER Y DIOLCHIADAU YN YSTOD 2023-2024 – PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** |
|---:|
| **CYFANSWM** |
| **25** |

## 15. Cynlluniau Gwaith ar gyfer 2024/25

15.1 Bydd y Swyddogion Gofal Cwsmer yn parhau i ymateb i bryderon, ymholiadau a chwynion trwy ddilyn Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, gan sicrhau fod gwersi i'w dysgu o bob achos yn cael sylw'r Tîm Rheoli Adrannol yn rheolaidd ac yn amserol. Parhau i fonitro'r gweithrediadau sydd yn cymryd lle er mwyn datblygu'r gwasanaeth.

15.2 Bydd y Swyddog Gofal Cwsmer yn parhau i gadeirio Grŵp Swyddogion Gofal Cwsmer Gogledd Cymru (NWCOG) am y flwyddyn i ddod. Cynhelir cyfarfodydd bob tri mis.

15.3 Bydd gwaith pellach hefyd yn cael ei gwblhau i geisio annog gweithwyr ar draws y ddwy Adran i gysylltu gyda'r Swyddogion Gofal Cwsmer i rannu unrhyw ddiolchiadau neu sylwadau canmoliaethus maent yn eu derbyn. Mae ymdeimlad ar hyn o bryd fod aelodau o staff yn teimlo nad yw'n briodol i rannu rhai sylwadau, ond mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer yn awyddus i newid hyn.

15.4 Hybu'r staff i gwblhau'r sesiwn hyfforddiant e-ddysgu er mwyn sicrhau eu bod yn llawn ymwybodol o'r broses ac yn gyfarwydd gyda'r camau sydd angen eu cymryd yn ystod y broses.

15.3 Ymhellach i'r Cynllun Gwaith a amlinellwyd yn fersiwn 2022/23 o'r adroddiad hwn, llwyddwyd i ail-ddylunio tudalen we gwybodaeth cwynion a chanmoliaethau Gwasanaethau Cymdeithasol ar wefan corfforaethol Cyngor Gwynedd. Yn ogystal, yn unol â'r drefn cwynion statudol, mae copi o adroddiad blynyddol 2022/23 yn awr ar gael i'w ddarllen ar y tudalen we yma.

15.4 Mae bwriad eleni i gynnal rhaglen o godi ymwybyddiaeth pellach o'r broses cwynion a chanmoliaethau yn ystod y flwyddyn i ddod. Fel cam cyntaf, yr ydym wedi dylunio poster newydd ar gyfer cartrefi preswyl y Cyngor. Pwrpas y poster yw i hyrwyddo sut y gall defnyddwyr gwasanaeth, a/neu eu teuluoedd, godi cwyn ffurfiol a/neu mynegi canmoliaeth am y gwasanaeth. Mae'r gwaith o ddylunio'r posteri wedi ei gwblhau ym mis Awst 2024 ac maent wedi eu dosbarthu i bob cartref preswyl o eiddo'r Cyngor. Byddwn yn monitro'r effaith fydd hyn yn ei gael ar y nifer o gwynion a/neu sylwadau positif byddwn yn eu derbyn o'r cyfeiriad yma. Fe welir copïau o'r posteri yma ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## 16. Ystadegau defnydd y Gymraeg a'r Saesneg wrth ymateb i gwynion ac ymholiadau

16.1 Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer yn ymateb i ymholiadau a chwynion yn yr iaith a ddymunir ei ddefnyddio gan yr ymholwr neu'r achwynydd. Gweler y ffigyrau perthnasol ar y defnydd o'r ddwy iaith yn y tablau isod.

| **Iaith ddethol yr Achwynydd i wneud ymholiad/cwyn yn ystod 2023/2024 – Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | **Saesneg** | **Cyfanswm** |
| *Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol* | 25 | 24 | **49** |
| *Cam 1* | 7 | 15 | **22** |
| *Cam 2* | 0 | 2 | **2** |
| *Corfforaethol* | 1 | 1 | **2** |
| *Ombwdsmon* | 0 | 0 | **0** |

| **Iaith ddethol yr Achwynydd i wneud ymholiad/cwyn yn ystod 2023/2024 – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | **Saesneg** | **Cyfanswm** |
| *Cam 1* | 2 | 11 | **13** |
| *Cam 2* | 1 | 3 | **4** |
| *Corfforaethol* | 0 | 0 | **0** |
| *Ombwdsmon* | 0 | 0 | **0** |

| ATODIAD 1(a) – ENGHREIFFTIAU O GWYNION A SYLWADAU ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD YN YSTOD 2023/24 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Disgrifiad byr** | **Cam** | **Tîm** | **Ymateb** | **Gwersi i'w dysgu** | **Sail i'r gŵyn?** |
| GC/14096-23 | Cwyn wedi ei dderbyn gan riant, roedd yn pryderu nad oedd yr Adran yn cymryd ei bryderon am lesiant ei blentyn o ddifri. Roedd wedi anfon tystiolaeth i mewn ac nid oedd yn credu fod neb wedi edrych drwyddo yn fanwl, ac felly yn pryderu dros les ei blentyn yng ngofal y rhiant arall. | Cam 1 | Cyfeiriadau Plant | Bu i'r Adran ysgrifennu i'r rhiant yn cadarnhau fod y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd a'r Rheolwr Tîm wedi edrych drwy'r dystiolaeth yn ei gyfanrwydd. Roedd y Tîm wedi gwirio gyda'r asiantaethau perthnasol ac nid oedd unrhyw bryderon amddiffyn wedi ei adnabod. Roedd y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd yn hapus fod y Tîm wedi cysidro pob consyrn yn llawn. Esboniwyd i'r rhiant os oes pryderon newydd yn codi, yna iddo gysylltu nôl yn syth. | Dim gwers wedi ei adnabod. | Nid oedd sail i'r gwyn. |
| GC/14198-23 | Cwyn gan riant am Weithiwr Cymdeithasol. Roedd y rhiant yn teimlo fod y Gweithiwr Cymdeithasol yn dweud celwydd, ddim yn cysylltu gyda hi ac wedi torri cyfrinachedd. | Cam 1 | Tim Plant Arfon 1 | Bu i'r Arweinydd Ymarfer perthnasol gysylltu gyda'r achwynydd i drafod ei chwyn dros y ffon, gyda llythyr gan yr Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd yn cadarnhau'r sgwrs hwnnw. Bu i'r achwynydd dderbyn esboniad llawn i bob pwynt, gyda'r Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd yn nodi ei bod yn hapus fod y Gweithiwr Cymdeithasol wedi ymddwyn yn broffesiynol. Bu i'r plentyn drosglwyddo drosodd i Dîm 16+ yn ystod y gwyn, gyda Gweithiwr Cymdeithasol newydd wedi ei adnabod | Dim gwers wedi ei adnabod. | Nid oedd sail i'r gwyn. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GC/14309-23 | Cwyn gan rieni yn teimlo nad oeddent yn derbyn cefnogaeth gan y Gwasanaeth, nad oedd gwasanaethau mewn lle iddynt fel teulu. | Cam 1 | Gwasanaeth Derwen | Bu i'r Rheolwr Gwasanaeth ysgrifennu i'r teulu yn ymddiheuro eu bod yn teimlo nad yw'r Gwasanaeth yn eu cefnogi, ac nid dyma'r bwriad o gwbl. Gofynnwyd iddynt sut yr hoffent symud ymlaen i gydweithio gyda'r Gwasanaeth er mwyn eu cefnogi fel teulu a chyrraedd anghenion y plentyn. | Dim gwers wedi ei adnabod. | Dim sail i'r gwyn, ond pwyntiau gweithredu wedi ei nodi er mwyn trafod o fewn cyfarfod gyda'r teulu |
| GC/14341-23 | Cwyn gan riant bod gofalwr maeth wedi bod yn fyrbwyll wrth drosglwyddo plentyn yn dilyn sesiwn cyswllt. Roedd yn pryderu nad oedd wedi cymryd gofal wrth afael ym mhen y babi, a gall hyn wedi achosi i'r babi frifo. | Cam 1 | Gwasanaeth Maethu | Bu i'r Rheolwr Gwasanaeth Maethu gysylltu gyda'r rhiant dros y ffôn i drafod y gŵyn ymhellach. Esboniwyd fod y Gweithiwr Cymdeithasol perthnasol wedi trafod y digwyddiad yn llawn gyda'r Gofalwr Maeth. Daeth i'r golwg fod gan y Gofalwr Maeth anaf i'w ysgwydd ac felly wrth drosglwyddo'r babi bu i'r Gofalwr Maeth gael poen i fyny ei fraich. Bu i'r babi barhau i gysgu a ni ddangosodd unrhyw anghysur. Roedd y Gwasanaeth yn hapus nad oedd y Gofalwr Maeth wedi bod yn fyrbwyll, a rhoddwyd cyngor ar sut i ymateb mewn sefyllfaoedd tebyg i'r dyfodol. | Cyngor wedi ei roi ar y pryd | Sail rhannol, gydag esboniad clir a chyngor pwrpasol wedi ei nodi |
| GC/14525-24 | Cwyn wedi cyrraedd gan berthynas i blant mewn gofal. Roeddent yn anhapus fod cyswllt wedi symud o'u cartref (tu allan i Wynedd) yn agosach i'r cartref maeth yng Ngwynedd. Roeddent hefyd yn anhapus fod sawl sesiwn cyswllt wedi ei ganslo. | Cam 1 | Tim Plant Dwyfor a Meirionnydd | Bu i'r Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd ysgrifennu i'r achwynwyr yn esbonio'r sefyllfa yn llawn. Roedd penderfyniad o symud sesiynau cyswllt wedi ei wneud yn ystod Adolygiad y plant. Roedd wedi dod i'r amlwg fod y plant yn pryderu am gyswllt, ac roedd hyn yn amharu ar eu hymddygiad cyn ac ar ôl i'r sesiynau gymryd lle. | Dim gwersi i'w dysgu | Dim sail i'r cwyn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Penderfynwyd felly bod angen sefydlogrwydd iddynt am gyfnod i geisio lleddfu eu pryderon. Gyda'r gobaith o ail edrych ar gyswllt yn y dyfodol pan roedd yn briodol i'r plant.<br><br>Bu i'r Adran sicrhau eu bod am wneud popeth posib i gynorthwyo gyda'r cyswllt, a sicrhau eu bod yn briodol er lles y plant. | | |
| **ENGHREIFFTIAU O GWYNION CAM 2 YN YSTOD 2023/24** | | | | | | |
| GC14985-23 | Bu i'r achwynydd gyflwyno cwyn am sawl aelod o staff o fewn yr Adran. Roedd sawl pwynt i'r gwyn, gan gynnwys un yn ymwneud a rhannu derbynneb am ffôn symudol, sylwadau wedi ei wneud yn ystod Cynhadledd Achos a bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gwrthod sicrhau bod ei gwaith ar gael i'w archwilio gan y rhiant gan mai dyma oedd yn ei gredu roedd y 'Cod Ymddygiad' yn ei nodi. | Cam 2 | Gwasanaeth Derwen | Yn dilyn ymchwiliad llawn bu i'r Ymchwilydd Annibynnol ddod i ganlyniad nad oedd sail i'r gwyn.<br><br>Bu i'r Adran dderbyn yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, nid oedd argymhellion wedi ei nodi.<br><br>Bu i'r achwynydd dderbyn copi o'r adroddiad yn dilyn canlyniad yr ymchwiliad. | Dim gwersi wedi ei nodi gan yr Ymchwilydd Annibynnol. | Dim sail i'r gŵyn. |
| GC15036-23 | Bu i'r achwynydd gyflwyno cwyn fod penderfyniad i fynd a'r achos ymlaen i Gynhadledd Achos wedi cael ei wneud yn gynamserol yn unol â phrosesu amddiffyn plant. A bod gwneud y penderfyniad yma felly wedi arwain at ragfarn a | Cam 2 | Tîm Plant Arfon 1 | Yn dilyn ymchwiliad llawn bu i'r Ymchwilydd Annibynnol ddod i ganlyniad nad oedd sail i'r gwyn. Bu i'r Ymchwilydd nodi 3 argymhelliad.<br><br>Bu i'r Adran dderbyn yr adroddiad yn llawn, gyda copi o'r adroddiad wedi ei | Er nad oedd sail i'r gŵyn, bu i'r Ymchwilydd Annibynnol nodi 3 argymhelliad o fewn ei adroddiad. Mi fydd Tîm | Dim sail i'r gŵyn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | diffyg meddwl agored with ymgymryd â'r ymchwiliad Rhan 47. Roedd yr achwynydd hefyd yn teimlo nad oedd yr ymchwiliad Rhan 47 wedi cwrdd â'r anghenion a nodwyd o fewn y canllawiau (WSP). | | | rannu gyda'r achwynydd yn dilyn yr ymchwiliad. | Rheoli Adran Blant yn trafod yr argymhellion hyn fel rhan o Gynllun Gweithredu, a phenderfynu priodoldeb eu gweithredu. | |
| GC15325-24 | Bu i'r achwynydd gysylltu i gyflwyno cwyn am Tîm Plant Arfon 1 a'r Swyddogion Adolygu Annibynnol. Roedd 43 pwynt i'r gwyn, enghreifftiau oedd; teimlo nad oedd y Gweithiwr Cymdeithasol yn ymchwilio i mewn i'w phryderon yn llawn, teimlo nad oedd neb yn gwrando, plant ddim yn cael eu gweld yn unol â'r canllawiau statudol, ddim yn derbyn gwadd i adolygiadau. | Cam 2 | Tîm Plant Arfon 1 a Swyddogion Adolygu Annibynnol | Yn dilyn ymchwiliad llawn, bu i ni dderbyn adroddiad cynhwysfawr iawn gan yr Ymchwilydd Annibynnol. Bu iddo nodi fod sail rannol i ddau bwynt, roedd y rhain yn faterion gweithredol ac wedi eu datrys cyn i'r Ymchwilydd Annibynnol gwrdd â'r staff priodol, ac felly roedd modd i'r Adran esbonio hyn i'r Ymchwilydd Annibynnol yn ystod yr ymchwiliad. Nid oedd sail i'r 41 pwynt arall a nodwyd o fewn y gwyn.<br><br>Bu i'r Adran dderbyn yr adroddiad yn llawn, nid oedd argymhellion wedi ei nodi. Bu i'r achwynydd dderbyn copi o'r adroddiad yn dilyn canlyniad yr Ymchwiliad. | Dim gwersi wedi ei nodi gan yr Ymchwilydd Annibynnol. | Dim sail i'r gŵyn |
| GC15576-24 | Roedd yr achwynydd yn anhapus fod y Gweithiwr Cymdeithasol wedi cynnwys cronoleg o fewn adroddiad i Gynhadledd Achos. Teimlai'r achwynydd ei bod wedi dod yn ei blaen ac felly roedd yn annheg cynnwys gwybodaeth hanesyddol o fewn yr adroddiad. | Cam 2 | Tîm Plant Dwyfor a Meirionnydd | Yn dilyn ymchwiliad, bu i'r Ymchwilydd Annibynnol ddod i ganlyniad nad oedd sail i'r gwyn. Roedd o'r farn fod yr Adran wedi dilyn y trefniadau cywir oedd wedi eu hamlinellu yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru a'i bod yn briodol i gynnwys y gronoleg o fewn yr adroddiad. | Dim gwersi wedi ei nodi gan yr Ymchwilydd Annibynnol. | Dim sail i'r gŵyn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bu i ni ddarparu copi o'r canllawiau amddiffyn plant i'r achwynydd, ynddo mae yn esbonio'r angen am gronoleg mewn asesiad o'r fath. Serch hynny, nid oedd yr achwynydd yn derbyn hyn ac yn gofyn i ni uchafu'r mater yn syth i Gam 2 o'r canllawiau cwynion gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'i hawliau. | | | Bu i'r Adran dderbyn yr adroddiad yn llawn, gyda chopi wedi ei rannu gyda'r achwynydd. | | |

| ATODIAD 1(b) – ENGHREIFFTIAU O GWYNION A SYLWADAU ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT YN YSTOD 2023/24 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Disgrifiad byr** | **Cam** | **Tîm** | **Ymateb** | **Gwersi i'w dysgu** | **Sail i'r gŵyn?** |
| GC/13855-23 | Perthynas yn pryderu am y berthynas rhwng y defnyddiwr gwasanaeth a'i Gweithiwr Cefnogol o'r Tim Anabledd Dysgu | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion (Tim Anabledd Dysgu) | Pryderon wedi cael eu pasio ymlaen i'r tîm perthnasol. Y mater wedi cael ei ddatrys trwy gynnal trafodaeth rhwng pawb er mwyn gallu penderfynu ar ddatrysiad. | Dim gwers wedi ei adnabod. | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/13898-23 | Perthynas defnyddiwr Gwasanaeth yn mynegi pryderon am ddiffyg oriau gofal cartref sydd ar gael yn ardal Llyn er mwyn cynyddu'r nifer o oriau a ddarparwyd. | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Ymddiheuriad ac esboniad llawn wedi ei ddarparu. Addewid wedi ei roi i fonitro'r sefyllfa yn agos ac i ddatrys y mater cyn gynted â phosib. | Dim gwers newydd wedi adnabod | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/14235-23 | Perthynas defnyddiwr gwasanaeth yn mynegi pryder fod bws mini'r Cyngor ddim yn gallu aros tu allan i'w gartref bellach i'w gasglu i fynychu gofal dydd gan fod y ffordd yn rhy gul. Yn gofyn i'r Cyngor dalu am dacsi iddo yn ei le. | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Datrysiad boddhaol wedi ei gytuno ar ol trafodaethau rhwng yr Adran a'r teulu. | Dim gwers wedi ei adnabod. | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/14315-23 | Perthynas defnyddiwr gwasanaeth yn mynegi pryderon fod ei mam wedi cael ei hanfon adref o ofal ysbaid mewn dillad nad oedd yn eiddo iddi a ddim yn gwisgo padiau ymataledd. | Cam 1 | Darparu Mewnol (Gofal Preswyl a Dydd) | Ymchwiliad llawn wedi ei gynnal gan Reolwr y Cartref ac ymddiheuriad llawn wedi ei ddarparu. | Dim gwers newydd wedi ei adnabod | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GC/14765-23 | Perthynas i ddefnyddiwr gwasanaeth yn pryderu fod ganddi ddyled yn casglu gan nad oedd yr Adran wedi anfon anfonebau am ei chyfraniad tuag at costau ei gofal am beth amser. | Cam 1 | Uned Incwm a Lles (Busnes) | Ymddiheuriad llawn wedi ei ddarparu, gydag ymrwymiad i sicrhau fod anfonebau yn cael eu hanfon yn amserol o hyn ymlaen. | Dim gwers newydd wedi ei adnabod | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/15155-23 | Perthynas defnyddiwr gwasanaeth gofal cartref yn mynegi pryderon am ansawdd y gofal gan ddwy aelod o staff gofal cartref. | Cam 1 | Darparu Mewnol (Gofal Cartref) | Ymchwiliad llawn wedi ei gynnal, ac ymateb/ymddiheuriad cynhwysfawr wedi ei ddarparu o ganlyniad. | Dim gwers newydd wedi ei adnabod | Dim sail i'r cwyn |
| GC/15435-24 | Defnyddiwr gwasanaeth yn mynegi pryderon am gyn gallu derbyn asesiad o'i anghenion gofal cartref. Yn gofyn am asesiad cyn gynted â phosib | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion (Tim Adnoddau Cymunedol) | Ymateb ac ymddiheuriad llawn wedi ei ddarparu am yr oedi. Wedi ymrwymo i ddarparu asesiad cyn gynted â phosib | Dim gwers newydd wedi ei adnabod | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/15645-24 | Perthynas defnyddiwr gwasanaeth yn mynegi pryder am ddiffygion cyfathrebu gan staff cartref preswyl. Y teulu yn anfodlon nad oedd y staff wedi gadael iddynt wybod fod eu perthynas wedi codymu ac eisiau sicrwydd na fydd hyn yn digwydd eto | Cam 1 | Darparu Mewnol (Preswyl a Dydd) | Ymddiheuriad wedi ei ddarparu yn dilyn ymchwiliad llawn i'r honiadau a gyflwynwyd. | Pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol gyda teuluoedd yn dilyn digwyddiadau tebyg | Cadarnhau fod sail i'r cwyn |

| ENGHREIFFTIAU O GWYNION CAM 2 YN YSTOD 2023/24 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GC/09696-21 | Perthynas defnyddiwr gwasanaeth yn mynegi pryderon am ansawdd gofal cartref gan gwmni allanol, oedi cyn cynnal adolygiad o'r pecyn gofal a'r oedi hir cyn darparu ymateb i'w chwyn gwreiddiol. | Cam 2 | Gwasanaeth Oedolion<br><br>Tim Diogelu a Sicrwydd Ansawdd (Gofal Cwsmer) | Ymchwiliad llawn wedi ei gynnal o dan Gam 2 y Trefn Gwynion. | Yr ymchwiliad wedi adnabod yr angen i fonitro gwaith cwmnïau gofal allanol yn agosach, adolygu pecynnau gofal cartref yn amserol, ac i sicrhau fod pob cwyn yn cael sylw o fewn yr amserlen statudol. Cynllun gweithredu wedi cael ei ddrafftio ac wedi ei gwblhau. | Cytunwyd fod sail i'r cwyn. Argymhellion yr Ymchwilydd Annibynnol wedi eu crynhoi mewn cynllun gweithredu |
| GC/13616-24 | Perthynas defnyddiwr gwasanaeth yn mynegi pryder am drefniadau rheoli heintiau mewn cartref preswyl y Cyngor. Yn gwneud honiadau fod y defnyddiwr gwasanaeth wedi dioddef oherwydd ei fod wedi cael eu cadw ar wahân i breswylwyr eraill oherwydd haint peryglus. | Cam 2 | Darparu Mewnol (Preswyl a Dydd) | Ymchwiliad llawn wedi ei gynnal o dan Gam 2 y Trefn Gwynion. | Ymchwiliad wedi adnabod yr angen i wella cyfathrebu rhwng staff y cartref a theuluoedd. Dim modd profi fod y defnyddiwr gwasanaeth wedi cael cam. Adroddiad llawn wedi ei ddarparu | Dim sail i'r cwyn ond yr ymchwiliad wedi adnabod rhai mannau i wella |

| ATODIAD 2 - Enghreifftiau o Gwynion Corfforaethol - 2023/2024 – ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf.** | **Disgrifiad byr** | **Categori** | **Cam** | **Uned / Tîm** | **Deilliannau** |
| GC/14979-23 | Aelod o staff y Bwrdd Iechyd yn mynegi pryderon am broblemau cyfathrebu rhwng staff Gwasanaeth Oedolion a'r Bwrdd Iechyd. | Corfforaethol | Cwyn ffurfiol | Gwasanaeth Oedolion | Ymateb llawn wedi ei ddarparu a'r mater wedi cael ei ddatrys |
| GC/15575-24 | Aelod o'r cyhoedd yn mynegi pryderon am rai agweddau o ymddygiad staff gofal cartref y Cyngor. Cwyn wedi ei weithredu o dan y drefn Corfforaethol gan nad oedd yw'r Adran yn darparu gwasanaeth yn uniongyrchol i'r achwynydd | Corfforaethol | Cwyn ffurfiol | Darparu Mewnol (Gofal Cartref) | Ymchwiliad llawn o'r honiadau wedi ei gynnal. Dim tystiolaeth i gyfiawnhau yr honiadau a gyflwynwyd. Ymateb llawn wedi ei ddarparu |

| ATODIAD 3 - DIOLCHIADAU A CHANMOLIAETH - ENGHREIFFTIAU O 2023/2024 | | |
|---|---|---|
| “Dwi wedi mwynhau Nurturing Links parenting a dwi yn teimlo bod fi wedi elwa wrth ddysgu llawer o dechnegau newydd i fedru delio efo sefyllfaoedd ac wedi gweld gwahaniaeth mawr adra, mae’r gefnogaeth dwi wedi derbyn gan Maria wedi bod yn ardderchog, doedd dimbud oni yn ofyn yn ormod iddi. Os oedd yn phonecall neu visit heb ei drefnu. Diolch.” | Diolch | Tîm Trobwynt |
| “This case was initially allocated to the Team Manager, Heidi Rylance and then re-allocated to Ceri Aspden co working with Olivia Chick.<br>There was excellent communication throughout my involvement, which was important as one of the parents was particularly skilled at playing agencies off one another. I felt this Local Authority worked tirelessly and robustly with the parents. The Local Authority recognised the strong sibling bond and the balance of harm as removal would have also caused emotional harm. They gave parents every opportunity to change. Very grateful if this can be cascaded to the key social workers involved as recognition of their work in this case acknowledged by the appointed Guardian Fiona Bevan.” | Diolch | Tîm Plant Meirionnydd |
| “Diolch o galon am fod mor annwyl â hawdd siarad gyda rwyf yn gwerthfawrogi yn fawr. Mi wnaf yn sicr gymryd eich cynnig i fynychu’r cwrs understanding the teenage brain. Llawer o ddiolch” | Diolch | Tîm o Amgylch y Teulu |
| “I Staff Hafan y Sêr, Diolch am bob dim ydach wedi gwneud i XXXX a ni. Mae o wedi bod hefo chi ers 6 blynedd ac mae o wedi mwynhau bob tro. Mae o am fethu chi a dani am fethu chi hefyd ydach chi wedi bod yn fantastic. Neith gymryd amser i XXXX i arfer i XXXX bydd Hafan y Sêr yn lle spesial iddo fo. Mae'n amser trist ond dwi’n siŵr neith XXXX cael arfer i'r sefyllfa newydd. Diolch eto” | Diolch | Uned Egwyl Fer, Hafan y Sêr |
| “Hello Gwenan,  My name is XXXX, I just want to pass on a huge appreciation to your project and how it really helped me and my family when we needed it the most. Maria has been  a breath of fresh air and a very warm, efficient and brilliant worker of this project.<br>She is so amazing that I didn't want her to leave us. She has really made a mark on me and she is so part of my journey. A lot has happened to me over the course of 8 months which I am very sure Maria would have filled you in on it. She's with me every step of the way. Days of medical appointments, filling forms, emotional support and guidance, encouraging me on my goals, helping me to | Diolch | Tîm Trobwynt |

| | | |
|---|---|---|
| look for what's out there as in job wise which I never thought in a million years I will achieve because of my caring role. I have met few amazing people through her because of her drive and determination. Holding my hands on my worst days taping my family back together giving me courage to connect with the community.<br>Giving us food when we ran out she made it so easy to open up to her. She went over and beyond for me and my family. She even wanted to take on the case of my son regarding school but because she wasn't allowed to do so she decided to join in school meetings instead for support.<br>I really want to go on and on but I hope all these heart felt words do tell you how amazing and incredible work this project has offered me and the family and I hope this project gets an excellent recognition for what it stands for. We will miss Maria and her laughs and the smiles that brightens up any cloud. Thank you so much for your Help! We are lucky to find you and the project. Many thanks, XXXXX." | | |
| "Eleri was highly praised today by XXXX who thanked her for all the support she has provided XXXX, going "above and beyond" in supporting her through two placement moves and getting her to a place where she is engaging in her education. The praise is well deserved, and I am sure that without Eleri's involvement, we would be looking at a very different situation."<br><br>I am sure that there are many other families benefitting from your expertise and support, you do such brilliant work, thank you again. Take care of yourself too though." | Diolch | Tim Plant Arfon 2 |
| "Since suffering a stroke some years ago Mum was housebound at home and was lucky enough to receive regular domestic visits from the beautiful people formerly working with Abercare, and more recently for the Gwynedd Care Service. Words cannot express enough our thanks for all the love and hard work provided. Mum was always a staunch proponent of workers<br>rights and would certainly agree that our beloved care workers deserve better pay and conditions. We thank the care workers for respecting the wishes of elderly and vulnerable care recipients, and getting things done often under difficult circumstances." | Diolch | Gofal Cartref (Darparu Mewnol) |
| "I just wanted to say thank you for the help and support you've shown me over our time together. Without you, in what's been the lowest point in my life, I wouldn't be here and I realise life can be better. I feel hounored and privileged to have had you as my Support Worker but | Diolch | Gwasanaeth Iechyd Meddwl (Oedolion) |

| | | |
|---|---|---|
| also sad that people need to be referred to the Mental Health Service to be able to work with such an amazing person. Diolch am pob dim" [Tim Iechyd Meddwl] | | |
| "Years ago when X got his PDA diagnosis we were told that the people who worked with him would need to be charismatic and confident. To our great joy, you all turned out to be not only that but also fun, compassionate, imaginative, thoughtful, cheerful, wonderful people. Because of this he not only listened to you but was happy to spend his days with you and I believe that he thought of you all as his friends. Not just anyone could do what you do. You are very special people and we are privileged to have had you in our lives." [Tim Anableddau Dysgu] | Diolch | Gwasanaeth Anabledd Dysgu (Oedolion) |
| "Fysa Mam ddim wedi cael gofal a chariad gwell gan unrhyw le. Doedd dim lle gwell na Bryn Blodau. Does gen i ddim byd ond diolch mawr i chi oll am eich caredigrwydd am yr holl amser a bu Mam efo chi. Diolch am bopeth xx" | Diolch | Darparu Mewnol (Gofal Preswyl a Dydd) |
| "Hoffwn gysylltu i ganmol y gofal a'r gefnogaeth gafodd Nain y gŵr gan Ofalwyr Cymunedol dalgylch Botwnnog. Roedd hi wedi bod yn derbyn gofal yn ei chartref ers rhai blynyddoedd bellach. Yn anffodus, derbyniodd ddiagnosis terfynol ym Mis Hydref yn dilyn cancr yn ymledu. Ei dymuniad oedd bod adref yn y diwedd a gyda ni fel teulu'n aros gyda hi a'r gofalwyr yn cynorthwyo, bu posib i ni wneud hynny. Wrth reswm, roedd hi'n gyfnod anodd a bu iddi ddirywio yn gyflym iawn. Yn anffodus, bu farw ddiwedd Mis Tachwedd.<br><br>Rwy'n ffyddiog y byddai'r profiad wedi bod yn dra gwahanol heb gefnogaeth y gofalwyr ag Ann Owena Jones. Roeddent i gyd yn amlwg yn brofiadol ac yn hyderus yn eu gwaith. Roedd y gofal yn ofalus a charedig, wrth sicrhau cynnal urddas Nain hyd y diwedd. Roeddent yn siarad gyda hi drwy'r holl gamau gofal, hyd yn oed pan oedd hi'n ymddangos yn anymwybodol ac roedd hynny'n hynod o ffeind. Rydw i hefyd eisiau ategu iddyn nhw fod yn gefn o ddifri i mi. Roedd gen i wir ofn methu gofalu'n ddigonol amdani yn y diwedd, ac roedd cael y gofalwyr yno i gynorthwyo mewn ffordd ymarferol yn help mawr. Ond yn fwy pwysig 'na hynny ar amser mor emosiynol a heriol, roedd pob un ohonynt mor barod i roi clust i wrando, cynnig cysur pan oeddwn i'n gofidio a cheisio gwneud yn siŵr mod i'n hymdopi. Mawr yw fy niolch iddynt am hynny!<br><br>Roedd Ann yn enwedig yn help mawr wrth geisio cefnogaeth a chyfarpar gan wahanol wasanaethau'r GIG, a fu'n brofiad hynod rwystredig ar adegau. | Diolch | Darparu Mewnol (Gofal Cartref) |

| | | |
|---|---|---|
| Felly, gyda hyn oll hoffwn ddiolch o galon i'r Tim gwych yma ac rydym yn awyddus i ddangos ein gwerthfawrogiad ymhellach drwy drefnu casgliad yn ei henw hi ar gyfer Gofalwyr Cymunedol dalgylch Botwnnog. Angladd fechan iawn gafwyd ond casglwyd dros £300. Hoffwn wneud trefniadau i'w drosglwyddo drosodd a gwneud cais iddo gael ei gadw o fewn y Tim yma os gwelwch yn dda." | | |
| "Ar ôl cyfnod hir iawn o salwch bu i fy nhad basio ffwrdd ar yr *** eleni. Rwyf yn awyddus iawn i gofnodi'n swyddogol ein bodlonrwydd fel teulu am y gofal arbennig ddarparwyd gan bawb fu ynghlwm i'w ofal.<br><br>Yn gyntaf, hoffwn nodi ein diolchiadau i Ann Wyn Pritchard a Siân Ceri Le Bon a fu am ymweliadau gartref i weld fy nhad. Roedd eu gofal yn urddasol, trylwyr a pharchus pob amser a'i gwybodaeth arbenigol mor werthfawr i helpu cadw fy nhad gartref gyda'i deulu. Yn ail, diolch i Deian Llŷr Owain am wneud trefniadau prydlon i sicrhau bod pecyn gofal yn cael ei ddarparu i dad pan ddaeth adref o'r ysbyty ym mis Mawrth. Mi oedd Deian mewn cysylltiad cyson i adrodd ar gynnydd y trefniadau, a hynny'n cael ei werthfawrogi wrth i ni roi popeth mewn lle i gael dad allan o'r ysbyty.<br><br>Yn ogystal, bu'r gofalwyr cartref nid yn unig yn gymorth ymarferol i fy nhad, ond hefyd gymorth emosiynol i mam a gweddill o'r teulu wrth i ni ofalu am dad yn ei fisoedd olaf. Nid yw'n bosib darganfod geiriau sy'n cyfleu ein diolch a gwerthfawrogiad i bob un ohonynt am eu gofal urddasol. Roedd yn bleser mwyaf ddod i 'nabod pobl mor arbennig, yn gwneud gwaith anodd a chaled iawn, gan ddangos caredigrwydd ac empathi i ni fel teulu mewn sefyllfa drist. Mae pob un ohonynt wedi mynd y filltir ychwanegol i wneud popeth o fewn eu gallu i'n cynorthwyo i ofalu am fy nhad. Fel teulu, ni allwn ganmol digon y gofal arbennig bu i fy nhad dderbyn gan yr unigolion anhygoel yma. Heb yr holl gymorth, ni fyddai wedi bod yn bosib i ni fel teulu ofalu am fy nhad yn ei gartref ei hun, yn unol â'i ddymuniad olaf. Yn olaf, roedd y gwasanaeth eistedd a ddarparwyd gan gwmni Eryri Cydweithredol y amhrisiadwy i roi seibiant i mam gael amser iddi hi ei hun. Diolch yn arbennig i Gwenda a Nia am eu caredigrwydd a gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol.<br><br>Hyderaf y bydd modd rhannu'r neges yma gyda phawb a fu ynghlwm i ofal fy nhad, gan basio ein diolchiadau diffuant a chofion gorau iddynt." | Diolch | Darparu Mewnol (Gofal Cartref)<br><br>Gwasanaeth Oedolion (Tim Adnoddau Cymunedol) |
| "Ysgrifennaf i ddatgan ein diolch fel teulu yn ddiffuant iawn am y gwasanaeth a'r gefnogaeth gwerth chweil gafodd mam dros gyfnod o flynyddoedd gan y Gwasanaethau Cefnogol. | Diolch | Darparu Mewnol (Gofal Cartref) |

| | | |
|---|---|---|
| Tra'n dyst i'r dycnwch a thynerwch y gofal ac ymroddiad di flino'r gofalwyr i gefnogi a gofalu am mam roeddem fel teulu yn dweud yn aml iawn y byddai wedi bod yn amhosib cael gwell gwasanaeth yn unlle.<br><br>Er bod 'na chyfnodau heriol ar brydiau roeddem ni'n gwerthfawrogi'ch cefnogaeth ac ymroddiad chi'ch dau i ddarparu'r gwasanaeth allweddol yma. Rhwng pob un ohonoch rydych yn cynnig gwasanaeth 5 seren ac mi fyddwn fel teulu yn fythol ddiolchgar am yr holl garedigrwydd. Trwy'r cyfnod clo, trwy bob tywydd a sawl her roedd penderfyniad ag ymroddiad y gweithwyr cefnogol i ofalu am mam yn anhygoel. Fedrwn ni ddim diolch digon i'r tîm triw a gwych yma sef Carys Jones, Carys Richards, Linda Roberts a Nichola Jane Roberts. Roedd bob un ohonynt yn mynd y filltir ychwanegol bob tro.<br><br>Er i'r gwasanaeth iechyd rannu na fuasai modd cefnogi mam yn ei chartref oherwydd natur cymhleth ei anghenion, fe lwyddodd y Gwasanaethau Cefnogol i'n cefnogi ni fel teulu i barchu dymuniad mam i gael aros adra. Ni fuasai wedi bod yn bosib i mam barhau yn ei chartref heb y gwasanaeth allweddol yma. Mae ein gwerthfawrogiad yn fawr iawn." | | |


Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
GWRANDO, YMATEB, GWELLA!
Mae eich sylwadau'n bwysig i ni, gan ei fod yn ein helpu i wella ein Gwasanaethau.
Mae croeso i chi anfon:
• canmoliaeth
• sylwadau positif
• sylwadau negyddol
• cwyn ffurfiol
Os oes gennych gwyn, fe wnawn:
• gasglu gwybodaeth yn llawn
• gwneud trefniadau i drafod y gwyn ac ymateb yn effeithiol
• adnabod ffyrdd o wella i'r dyfodol
CYSYLLTU Â'R SWYDDOG GOFAL CWSMER
01286 679549
gcgc@gwynedd.llyw.cymru
www.gwynedd.llyw.cymu
Gofynnwch am ein llyfryn 'Gwrando, Ymateb, Gwella'

Adults, Health and Wellbeing Department

# LISTENING, RESPONDING, IMPROVING



Your comments are important to us, as they help us improve our Services.

You are welcome to send us:

- praise
- positive comments
- negative comments
- a formal complaint

If you have a complaint, we will:

- collect information fully
- make arrangements to discuss and respond effectively to your complaint
- identify ways to improve for the future

## CONTACT THE CUSTOMER CARE OFFICER

01286 679549

gcgc@gwynedd.llyw.cymru

www.gwynedd.llyw.cymu

**Ask for the 'Listening, Responding, Improving' booklet**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 26/09/2024 |
| **TEITL** | **Polisi Codi Tâl am Ofal** |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Blaen graffu – Angen sylwadau'r pwyllgor ar y newidiadau arfaethedig cyn mynd allan i ymgynghori a chyflwyno i'r Cabinet |
| **AWDUR** | Alun Gwilym Williams |
| **AELOD CABINET** | Dilwyn Morgan |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Mae bwriad addasu'r polisi codi tâl am ofal er mwyn rhoi'r hawl i'r Cyngor godi ffioedd am rai gwasanaethau gofal a chymorth lle nad oes ffi wedi bod yn cael ei godi yn hanesyddol.

Mae angen craffu'r argymhelliad i addasu'r polisi a'r argymhelliad i fynd allan i ymgynghori ar y mater, cyn cyflwyno sylwadau'r craffwyr i'r cabinet i ddod i benderfyniad ar y mater.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

Yr argymhelliad i addasu y polisi codi tal am ofal.

## 3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

Mae tair elfen lle mae angen datblygu/addasu'r polisi :

### 3.1 Addasu'r polisi i ychwanegu gwasanaethau penodol sydd wedi bod am ddim yn hanesyddol:

- **Gofal Dydd:** Codi ffi am fynychu gofal dydd a ddarperir mewn canolfannau/ lleoliadau penodol y tu allan i'r cartref. Bydd angen penderfyniad ar lefel y ffi yma, mwy o wybodaeth yn rhan 4.
- **Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl:** Codi am wasanaethau cefnogol Iechyd meddwl (Ag eithrio wasanaethau sydd yn dod o dan ran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl 1993)
- **Gwasanaethau Cefnogol Dementia :** Codi am wasanaethau cefnogol yn y gymuned.

**3.2 Addasu'r geiriad a gwneud y cymal ar ofalwyr di-dâl yn fwy eglur.**

Diffinir gofalwr di-dâl fel ;

*"rhywun sy'n gofalu neu sy'n bwriadu darparu gofal di-dâl i oedolyn oherwydd salwch corfforol neu feddyliol, oedran, anabledd, dibyniaeth ar sylweddau neu ofalu am blentyn anabl" (Carers Trust, 2024)*

O ran gofalwyr di-dâl, mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi ;

*"Pan fydd awdurdod lleol yn diwallu anghenion gofalwr sy'n oedolyn drwy drefnu neu roi cymorth yn uniongyrchol iddo, neu'n darparu taliadau uniongyrchol i'w alluogi i gael y cymorth hwn, mae ganddo ddisgresiwn i godi ffi ar y gofalwr sy'n oedolyn am y rhain".*

Er fod y disgresiwn ganddo i wneud, nid yw'r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dâl, a'r argymhelliad yw fod y polisi yma'n parhau. Mae nifer o resymau am hyn, ond yn bennaf gwyddom fod gofalwyr di-dâl yn rhoi gofal a chefnogaeth gwerthfawr i unigolion sydd yn tynnu pwysau oddi ar wasanaethau statudol, ac mae angen i'r Cyngor barhau i gefnogi gofalwyr di-dâl i gyflawni'r rôl werthfawr yma. Wrth benderfynu os bydd ffi yn cael ei godi am wasanaeth, dyma yw'r egwyddorion fydd yn cael eu dilyn ;

- Ni fydd y cyngor yn codi tâl am wasanaethau i gefnogi gofalwyr di-dâl yn uniongyrchol (gwasanaeth sydd yn enw'r gofalydd).

- Os bydd cynllun gofal a chefnogaeth yn enw'r gofalydd, yna nid ydym yn codi tâl arnynt am y gefnogaeth yma h.y gwasanaeth sydd o fudd uniongyrchol i'r gofalydd di-dâl lle nad oes unrhyw elfen o ofal/cyfrifoldeb am y person sydd angen gofal.

- Argymhelliad y dylid codi tâl (yn ddibynnol ar asesiad ariannol) am unrhyw wasanaeth lle mae elfen o ofal uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r unigolyn sy'n derbyn cymorth e.e. gofal personol, neu wasanaeth cadw cwmni neu oruchwyliaeth. Byddai'r gwasanaeth yma yn rhan o gynllun gofal a chefnogaeth yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn hytrach na'r gofalwr di-dâl.

- Byddai'r eithriadau arferol a nodir yn rhan 4 isod yn berthnasol.

**3.3 Gweithredu ar ffioedd sydd eisoes o fewn y polisi ond lle nad ydi'r Cyngor wedi bod yn codi yn hanesyddol :**

- Yr enghraifft bennaf ydi taliadau gohiriedig. Mae taliad gohiriedig yn drefniant lle mae unigolyn yn mynd i gartref preswyl neu nyrsio, ond nad ydynt yn gwerthu eu cartref, ac felly mae cost gofal person yn mynd yn erbyn eu eiddo, a pan fydd yr eiddo yn cael ei werthu, mae'r Cyngor yn ad-ennill y ffioedd gofal sydd wedi cronni hyd at y pwynt yno. Mae'r polisi presennol yn nodi fod gan y Cyngor hawl i godi ffi am weinyddu'r taliad, gwaith cyfreithiol a phrisio'r eiddo wrth sefydlu'r gytundeb. Gellir codi ffioedd pellach yn ystod oes y cytundeb os oes angen prisi adau pellach ar eiddo er enghraifft.

- Mae'r polisi presennol yn nodi y gellir hefyd godi llog blynyddol ar y ddyled drwy daliad gohiriedig, ond yn flaenorol nid yw hyn wedi bod yn cael ei weithredu oherwydd natur gymhleth y gwaith.

- Pan fydd y polisi newydd yn weithredol mae bwriad codi tâl am y rhain a byddwn yn datblygu system gywir ar gyfer codi y swm cywir a cadw trac ar y ddyled.

**4. Cefndir / Cyd-destun**

- **Y cyd-destun deddfwriaethol:**

Mae cod ymarfer (rhan 4 a 5) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi ;

*"Pan fydd awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth i ddiwallu anghenion person, neu gymorth i ddiwallu anghenion gofalwr, o dan adrannau 35 i 45 o'r Ddeddf (Diwallu anghenion) mae ganddo ddisgresiwn i godi ffi am hyn, oni fydd yn ofynnol peidio â chodi ffi ar berson penodol neu beidio â chodi ffi am fath penodol o ofal a chymorth o dan reoliadau"*.

Mae'r cod ymarfer hefyd yn cynnwys rhestr o wasanaethau gwarchodedig y mae'n rhaid eu darparu yn rhad ac am ddim.

Rhain yw:

- Cludiant i wasanaeth dydd lle mae'r cludiant yn cael ei ddarparu fel rhan o ddiwallu anghenion person
- Gwasanaethau ôl-ofal a ddarperir o dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (a ddarperir ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd)
- Gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr Clefyd Creuzfeldt Jacob

- Gofal a chymorth a ddarperir fel ail-alluogi a drefnwyd o dan Ran 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) neu Ran 4 (diwallu anghenion) y Ddeddf, neu ail-alluogi a drefnir fel taliadau uniongyrchol o dan adrannau 50 neu 52 (taliadau uniongyrchol) y Ddeddf, i berson am hyd at 6 wythnos i'w alluogi i gynnal neu adennill ei allu i fyw'n annibynnol gartref*.
- eiriolaeth broffesiynol annibynnol lle mae awdurdod lleol wedi trefnu i ddarparu hyn yn unol â'r cod ymarfer ar eiriolaeth o dan Ran 10 (Cwynion, Cynrychiolwyr a Gwasanaethau Eirioli) o'r Ddeddf.

**Yng Ngwynedd dim ond pecynnau gofal a ddynodir yn rai 'galluogi' yn benodol fydd yn cael eu eithrio am hyd at 6 wythnos. Bydd ffi yn daladwy am ofal cartref arferol hir dymor o'r diwrnod cyntaf.*

Mae'r côd ymarfer yn nodi'n glir rhai egwyddorion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu glynu atyn nhw wrth ddatblygu eu polisiau codi tâl. Mae'r egwyddorion yma yn berthnasol iawn wrth gysidro addasu'r polisi. Yn bennaf :

**Rhaid** i awdurdodau lleol:
• sicrhau na chodir ffi ar bobl sy'n fwy nag sy'n rhesymol ymarferol iddynt ei thalu a rhaid peidio â chodi ffi sy'n fwy na'r gost i'r awdurdod mewn perthynas â darparu neu drefnu'r gofal a chymorth y maent yn ei gael neu y maent yn ei drefnu eu hunain drwy daliadau uniongyrchol;
• bod yn gyson, er mwyn dileu amrywiadau yn y ffordd y caiff pobl eu hasesu'n ariannol ac y codir ffioedd arnynt;
• bod yn glir ac yn dryloyw, er mwyn i bobl wybod y swm y bydd yn cael ei godi arnynt;
• hyrwyddo canlyniadau llesiant, cynhwysiant cymdeithasol a chefnogi'r weledigaeth o annibyniaeth, llais a rheolaeth;
• helpu gofalwyr i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, a gofalu mewn ffordd effeithiol a diogel;
• canolbwyntio ar y person, gan adlewyrchu'r amrywiaeth o sefyllfaoedd gofal a gofalu a'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael i helpu i ddiwallu anghenion a chanlyniadau llesiant pobl;
• cymhwyso ffioedd yn gydradd fel y bydd y rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth tebyg yn cael eu trin yn yr un modd a lleihau anghysondebau rhwng codi am fathau gwahanol o ofal a chymorth i'r eithaf;
• annog a galluogi'r rhai sy'n dymuno aros mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant neu ymgymryd â chyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, neu gynllunio ar gyfer costau diwallu eu hanghenion yn y dyfodol, i wneud hynny;
• bod yn gynaliadwy i awdurdodau lleol yn yr hirdymor.

- **Sefyllfa gyllidol y maes, amcangyfrif o gost gweithredu unrhyw newidiadau, ffynonellau cyllido etc.:**

  Gyda'r sefyllfa ariannol ddyrys sydd ohoni, mae'n anorfod ystyried codi ffioedd am y gwasanaethau hynny lle mae disgresiwn i'r Cyngor wneud. Mae'r gyllideb sydd ar gael i gynnal gwasanaethau gofal yn gostwng, ond mae'r angen am ofal yn cynyddu oherwydd demograffeg ein Sîr. Mae poblogaeth Gwynedd yn heneiddio ac yn byw yn hirach gyda gwaeledd a/neu anableddau (Comisiwn Bevan, 2024) sydd yn rhoi pwysau cynyddol ar wasanaethau gofal. Mae prosiect Llechen Lân yn ceisio dod i'r afael ar newid mewn ymarfer fel ein bod mewn gwell lle i ymateb i'r cynnydd yn y galw, ond mae addasu'r polisi codi tâl i uchafu cyfraniadau at ein gwasanaethau yn ystyriaeth bwysig. Mae'r newidiadau yma wedi cael eu gwneud gan rai cynghorau eraill yn llwyddiannus yn barod, gweler isod am esiampl.

  Mae'n anodd rhoi ffigwr ar faint o arian fyddai'r newidiadau uwchben yn ei gynhyrchu, gan mai rhoi'r hawl i'r Cyngor godi ffi yn unig fyddai newid y polisi. Byddai gan bawb sy'n derbyn gofal a chymorth yr hawl i asesiad o'u sefyllfa ariannol cyn gorfod cyfrannu, ac mae uchafswm o £100 yr wythnos wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru (mae ymgynghoriad wedi bod i godi'r swm yma i £125 yr wythnos, ond dim penderfyniad hyd yma).

  Un enghraifft o ffi fyddai'n cyfrannu yn faterol fyddai gofal dydd. Os byddai'r Cyngor yn penderfynu codi ffi 'fflat' o £5 y dydd (er enghraifft) ar bawb sydd yn mynychu gwasanaeth dydd, heb asesiad ariannol, amcangyfrifir y byddai hyn yn arwain at incwm oddeutu £150,000 y flwyddyn. Fel y gwelir o'r tabl isod, mae'r mwyafrif o siroedd eraill y Gogledd yn codi ffioedd llawer uwch. Gellir gwneud hyn ond byddai angen asesiad ariannol ar bawb, fel mai'r unig rai fyddai'n cyfrannu o gwbl fyddai'r unigolion rheini sydd a'r modd i wneud.

| **Sîr** | **Ffi Gofal Dydd (am ddiwrnod)** |
|---|---|
| Conwy | £22.36 |
| Fflint | £51.68 |
| Dinbych | £62 |
| Wrecsam | £25 |
| Ynys Môn | £0 |
| **Cyfartaledd** | **£40.26** |

- **Risgiau - beth yw'r risgiau a beth ellir ei wneud i'w lliniaru:**

  1. Mae perygl na fydd y polisi yn cael ei weithredu'n gyson, neu yn cael ei ddehongli yn wahanol os yn aneglur. Gellir goresgyn y risg hon gyda hyfforddiant i staff a chanllawiau clir. Hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol a all gynghori unigolion ar yr hyn sydd ar gael iddynt, a hefyd hyfforddiant i'r staff sy'n cynnal asesiadau ariannol, i sicrhau bod pawb yn cael eu asesu yn gyson.

2. Mae risg y bydd ffioedd uwch yn effeithio ar sefyllfa ariannol oedolion bregus Gwynedd. Mae gan bawb sydd yn cyfrannu at ofal neu gymorth yr hawl i asesiad o'u sefyllfa ariannol. Mae'r asesiad yma mewn lle i sicrhau fod gan bawb incwm digonol i fyw arno ar ôl talu am y gwasanaeth. Yn ychwanegol, mae gan y Cyngor swyddogion incwm a lles sydd yn gweithio gydag unigolion i sicrhau eu bod yn derbyn y budd-daliadau y maent yn gymwys i'w derbyn os yw'r asesiad ariannol yn dangos fod angen iddyn nhw gyfrannu at eu gofal.

3. Mae risg y gallai ffioedd uwch atal pobl rhag ceisio gofyn am gymorth a chefnogaeth pan fydd ei angen arnynt. Er mwyn trio goresgyn y risg yma, mewn achosion o ddiogelu mae gan weithwyr proffesiynol Cyngor Gwynedd y disgresiwn i eithrio pobl o'r polisi am gyfnod penodol i'w adolygu.

4. Yn debyg i'r risg uchod, mae posibilrwydd y bydd unigolion yn dewis peidio derbyn/mynychu gwasanaethau (er enghraifft gwasanaeth dydd) sydd yn ataliol eu natur, ac o ganlyniad y byddant angen gwasanaethau statudol, drytach (er enghraifft gofal cartref) yn gynt. Er mwyn lliniaru'r risg yma, bydd hyrwyddo gwasanaethau ataliol, Dewis Cymru ayyb yn flaenoriaeth.

5. Mae gweithwyr cefnogi dementia sydd yn cael eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd yn y gymuned yn cynnig cefnogaeth am ddim, ac mae gofyn yn ôl y ddeddf i gydweithio a chysoni ar draws iechyd a gofal ym maes dementia a gofalwyr di-dâl. Mae risg felly, bydd codi tal am cefnogaeth tebyg yn ddryslyd, a bydd angen cyfathrebu hyn yn glir ag yn gyson.

---

- **Arfer da yn y maes:**

Mae'r tabl isod yn crynhoi sefyllfa siroedd eraill sydd wedi ymateb i'n cais am wybodaeth (yr unig wasanaethau sydd wedi eu cynnwys yw y gwasanaethau rheini sydd dan sylw) :

| **Sir** | **Yn codi am y gwasanaethau isod:** |
|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | Gofal Dydd, Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Gofal Dydd, Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl |
| Fflint | Gofal Dydd |
| Fynwy | Gofal Dydd, Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl |
| Torfaen | Gofal Dydd, Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl |
| Powys | Gofal Dydd, Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl |
| Caerfyrddin | Gofal Dydd, Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl |

- **Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol:**

Yn y dyfodol agos, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried codi'r tâl uchaf wythnosol am ofal di-breswyl o £100 i £125. Os yw'r newid hwn yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yna bydd Cyngor Gwynedd yn gweithredu'r newid hwn. Mae'r diweddariad i'r polisi codi tal yng Ngwynedd yn cwmpasu'r newid hwn, oherwydd mae'r polisi yn datgan y bydd ein polisi yn adlewyrchu unrhyw newidiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gweithredu. Bydd Cyngor Gwynedd yn cynyddu'r uchafswm tâl wythnosol yn unol a newid Llywodraeth Cymru i'r dyfodol, os nad oes penderfyniad penodol i'r gwrthwyneb.

Gwelwch mwy o wybodaeth am y newidiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru yma:
Datganiad Ysgrifenedig: Codi Ffioedd am Ofal a Chymorth Amhreswyl: uchafswm ffi wythnosol (19 Chwefror 2024) | LLYW.CYMRU

## 5. Ymgynghori

Mae'r côd ymarfer yn nodi'n glir (rhan 4.2) ;

*"Pan fydd awdurdodau yn llunio polisïau newydd, neu'n diwygio polisïau sy'n bodoli eisoes yn sylweddol, rhaid iddynt ymgynghori â'r rhai yr effeithir arnynt yn lleol ac ystyried eu barn cyn penderfynu ar ba bolisi, neu ba ddiwygiadau i'w polisi, y dylent ei roi neu eu rhoi ar waith".*

Y cam nesaf arfaethedig felly yw mynd allan i ymgynghori ar y newid i'r polisi, yn benodol efo'r rheini yr effeithir arnyn nhw a'u teuluoedd/gofalwyr, ond gyda'r cyhoedd yn ehangach hefyd.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- **A ydych wedi cynnwys trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?**

Gweler pwynt 5 uchod.

- **A ydych wedi ystyried cydweithio?**

Rydym yn cydweithio a chyfrannu'n ariannol tuag at hybiau cymunedol, mudiadau trydydd sector ayyb i gynnal rhai gwasanaethau ar ein rhan. Mae rhain yn cynnwys cyfraniadau ariannol i agor hybiau ym mhob ardal llesiant yng Ngwynedd, a thaliadau i fudiadau trydydd sector 'Cynnal Gofalwyr' a 'Action for Children' ar gyfer cefnogi eu gwaith gyda gofalwyr di-dâl.

Rydym yn cyd-weithio gyda'r Biwro Cynghori (Cyngor ar Bopeth) i gynnig gwasanaeth i unigolion uchafu y bydd-daliadau y maent yn gymwys iddyn nhw, ac mae gennym ein

swyddogion incwm a lles mewnol hefyd sydd yn gwneud y gwaith yma gydag unrhyw un sydd yn derbyn gwasanaethau gofal a chymorth a sydd wedi eu asesu i fod angen cyfrannu.

- **Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?**

Os bydd ein gwaith yn cael ei wneud yn ddi-hid bydd pawb sydd yn gwneud cais am un yn derbyn asesiad ariannol, fel mai dim ond unigolion sy'n gallu fforddio talu unrhyw ffi fydd yn talu. Gall unigolion ofyn am ail-asesiad ar unrhyw adeg.

Mae'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud i helpu gwasanaethau cymdeithasol i aros yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nid yw'r ffordd yr ydym yn gweithredu ar hyn o bryd yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol ac mae angen gwneud newidiadau cyn i'r effaith gael ei weld ar wasanaethau.

- **Sut ydych wedi ystyried yr hirdymor a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?**

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae tîm prosiect wedi bod yn edrych i mewn i beth fydd anghenion gofal unigolion Gwynedd dros yr ugain mlynedd nesaf. Yn fras yn ôl y Cyfrifiad bu twf yn y boblogaeth dros 65 oed o 7.8% yng Ngwynedd rhwng 2011 a 2021. Roedd hyn yn gynnydd o 25,140 i 27,273. Awgryma rhagfynegai poblogaeth y bydd nifer y bobl dros 65 oed yn parhau i gynyddu dros yr ugain mlynedd nesaf i 32,452 yn 2043. Er bod rhai pethau nad oes modd proffwydo ar eu cyfer, wrth gwrs, megis gwella clefydau neu bandemig, cynghora Comisiwn Bevan mai "yr oedran cyfartalog y rhagwelir y bydd afiechydon mawr yn datblygu yw 70 mlynedd. Gyda'r cynnydd mewn disgwyliad oes, bydd y blynyddoedd a dreulir gyda salwch yn cynyddu hefyd."

Arweinia’r rhagfynegi demograffeg at ragweld cynnydd sylweddol yn y galw am ofal cymdeithasol o 57% erbyn 2043. Byddai hyn yn ychwanegol i'r 11% o unigolion a aseswyd am ofal a oedd yn aros am ddarpariaeth adeg yr ymchwil yng Ngwynedd.

Mae'r ffigyrau hyn yn awgrymu mai dim ond un cam bach yn y darlun llawn yw codi tâl am wasanaethau. Mae adroddiad llawn Llechen Lân (lle mae'r wybodaeth uchod wedi'i chymryd) yn gwneud awgrymiadau pellach ar sut y gall yr adran gynllunio a newid i helpu i ddiogelu gofal cymdeithasol i bobl yn y blynyddoedd i ddod. Mae rhai o'r newidiadau hyn yn cynnwys; gweithio ar sail cryfderau, integreiddio gwasanaethau galluogi amlddisgyblaethol, cynyddu cefnogaeth i ofalwyr di-dâl, arloesi gyda thaliadau uniongyrchol, mabwysiadu Gofal a Alluogir gan Dechnoleg a roboteg, sicrhau gwybodaeth a chyngor hygyrch, buddsoddi mewn tai gofal ychwanegol gwasgaredig, datblygu Academi Gofal, sicrhau cydweithio traws-awdurdod, cydweithio gyda'r trydydd sector, ac adfywio comisiynu ar sail canlyniadau.

- **Er mwyn sicrhau integreiddio, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?**

Mewn rhai achosion eithafol gall unigolion osgoi ceisio gwasanaethau gofal cymdeithasol oherwydd eu bod yn poeni am y gost. Gall hyn arwain at bwysau cynyddol ar y GIG gyda mwy o unigolion yn ceisio cymorth ysbyty. I wneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd, mewn achosion o ddiogelu mae gan weithwyr proffesiynol y disgresiwn i eithrio pobl o'r polisi am gyfnod penodol, i'w adolygu.

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae newidiadau i'r polisi wedi eu cynllunio i sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin yn gyfartal. Yn y gorffennol roedd grwpiau fel gofalwyr di-dâl yn cael eu tangynrychioli yn y polisi. Mae pob unigolyn yn cael cynnig prawf modd i wneud yn siŵr fod cyfraniadau wedi'u seilio ar ecwiti ac incwm. Nod hyn yw sicrhau bod pawb yn cael dal eu gafael ar yr un costau byw, a sicrhau nad yw statws economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar ansawdd gofal.

Mae'r asesiadau ariannol yn cael eu cynnig yn y Gymraeg yn ragweithiol ond ar gael yn ddwyieithog, ac mae copi o'r Polisi Codi Tâl ag unrhyw ddogfennaeth berthnasol ychwanegol ar gael yn ddwyieithog.

## 8. Camau Nesaf

Ar ôl trafod as chael barn y Pwyllgor heddiw bydd y newidiadau arfaethedig i'r polisi codi tâl am ofal yn rhan o ymgynghoriad gyda'r oedolion rheini sy'n cael eu effeithio, a'r cyhoedd yn ehangach. Yn dilyn derbyn canlyniadau ac adborth o'r ymgynghoriad, bydd y newidiadau i'r polisi yn mynd gerbron y Cabinet.

**Linciau berthnasol:**

Cwestiynau ychwanegol:

Atodiad 1 -
Cwestiynau ychwaneg

Polisi Codi Tal Cyfredol (dim newidiadau wedi cynnwys):

2017.04.10-PolisiCod
iTalOedolion(c).docx

Costau Gwasanaethau Oedolion 24-25:

Talu am
Wasanaethau Gofal D

Llyfryn Asesiad Anghenion Gofalwyr:

Asesiad-Anghenion-
Gofalwyr.pdf

Cod ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol:

cod-ymarfer-rhan-4-
a-5-codi-ffioedd-ac-a: